ECO'R WYDDFA

RHIF 302 GORFFENNAF 2003 PRIS 40c

BITI?

Hel ei bac wnaeth El Becam – i'n gwared
O'r geiriau a'r bedlam.
Yn gyrliog, aeth ar garlam,
Y dosh, neu Posh, pwy ŵyr pam!

CIAO!

Paratoi i Ddathlu 25 Mlynedd o Groesawu'r Eidalwyr i Fro'r Eco

MAE pentref ym Mro'r Eco yn gobeithio cryfhau ei berthynas gyda un o wledydd Ewrop drwy efeillio â thref yn yr Eidal.

Ers dros ddau ddegawd mae Ras yr Wyddfa wedi bod yn sail i ddatblygu cyfeillgarwch rhwng Llanberis a thref Morbegno. Nawr, i ddathlu 25 mlynedd o groesawu rhedwyr yr Eidal yn 2004, mae gwaith ar droed i efeillio'r ddwy ardal. Ac mae'n bosib y bydd Llanberis a gweddill yr ardal yn dathlu mewn steil gan fod trefnwyr Ras yr Wyddfa wedi derbyn gwahoddiad i roi cais i mewn i lwyfannu Pencampwriaeth Ewrop rhedwyr mynyddau y flwyddyn nesaf.

Er nad oes dim wedi ei benderfynu hyd yma, byddai hyn yn codi statws y ras yn 2004 ac yn hwb i'r ardal.

Dyma fydd y pumed flwyddyn ar ugain yn ddi-dor i'r Eidalwyr ddod draw i Lanberis i gymryd rhan yn y ras. Eleni, fel arwydd o'r berthynas rhwng y ddwy ardal, bydd Maer tref Morbegno, Mr Cacomo Ciapponi, yn dod draw i Ddyffryn Peris ar gyfer Ras yr Wyddfa; fydd yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 26.

Mae pennaeth twristiaeth a phennaeth Chwaraeon yr ardal hefyd yn ymweld â Llanber a bydd y Maer yn cychwyn y Ras

Hefyd bydd arddangosfa o hanes a chynnyrch yr ardal Eidalaidd yn cael ei chynnal yn y Mynydd Gwefru dros benwythnos y ras.

Mae cysylltiad wedi bod rhwng Morbegno a Llanberis ers dros ddau ddegawd. Gyda un o rasys rhedeg mwyaf yr Eidal, y Trofeo Vanoni, yn cael ei chynnal yn Morbegno mae'n hawdd gweld sut y gwnaeth y berthynas ddechrau. Blaguro'n raddol wnaeth y bartneriaeth pan ddechreuodd criw o redwyr o'r Eidal ddod draw i gystadlu yn Ras yr Wyddfa. Er bod cannoedd ar gannoedd o filltiroedd rhwng y ddwy ardal, mae tebygrwydd rhwng y ddau le.

Fel Llanberis, mae hanes o chwareli llechi i'r dref Eidalaidd. Diwydiant arall sy'n bwysig i'r ardal yw cynnyrch fferm – yn enwedig caws a gwin. Ac, wrth gwrs, mae mynyddoedd yn bwysig i'r ddwy ardal, gyda Morbegno wedi ei leoli yn yr Alpau, tua 120 milltir i'r gogledd o Milan.

Yn ôl Ken Jones, trefnydd Ras yr Wyddfa, mae nhw'n gobeithio cwblhau'r broses o efeillio erbyn y flwyddyn nesaf. Dywed bod Cyngor Cymuned Llanberis a Chyngor Gwynedd yn cefnogi'r fenter ac mae nhw'n gobeithio y bydd yn hwb i'r ardal. Meddai: 'Gobeithio y bydd pobol yn y dyfodol yn medru cymryd mantais o hyn, yn enwedig pobol ifanc fydd yn medru mynd draw i'r Alpau ar dripiau cyfnewid. Er bod Morbegno yn yr Alpau, mae'r pell yn agos. Efo'r cysylltiadau iawn mi all rhywun fynd o Lanberis i Morbegno mewn naw awr – mynd i Fanceinion, i Milan ac wedyn trên yn syth i Morbegno.'

Y cam nesaf fydd rhoi cais swyddogol i mewn a cheisio ennill grantiau ar gyfer y fenter.

Label Brithyll o'r Alban



Yr Albanwyr yn Dwyn yr Wyddfa

MAE'N denu ymwelwyr ar draws y byd; wedi ymddangos ar gardiau post di-ri ac wedi benthyg ei henw i'r papur yma. Does ryfedd felly bod yr Albanwyr yn ceisio dwyn yr Wyddfa!

Dyna yw un ffordd o edrych ar y label yma – sy'n gwerthu brithyll ffres o'r Alban gan ddefnyddio llun o'r Wyddfa. Ond i ddarllenwr craff yr Eco, wnaeth yrru'r llun i fewn, mae eglurhad arall.

Meddai: 'Mae'n amlwg fod yr Albanwyr yn bridio brithyll enfys go arbennig ym mynyddoedd yr Alban – ond mae'r brithyll yma wedi gallu llamu a nofio yr holl ffordd i Lyn Padarn wrth droed yr Wyddfa – a gorffen ei daith fel pryd blasus i un o Fro'r Eco.'

ECO'R WYDDFA

RHIF 302
GORFFENNAF 2003

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677436)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650766)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
DEINIOLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
LLANBERIS: Gwyneth ac Elfion Roberts, Aân-y-Awynt (870748)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Bycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, AWST 18
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, AWST 28

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Awst	—	—	—	—	
Medi	18 Awst	28 Awst	Dinorwig	Marian Jones	870292
Hydref	22 Medi	2 Hydref	Penisarwaun	Ann Evans	872407
Tachwedd	20 Hydref	30 Hydref	Llanberis	Gwilym Evans	870625

Llythyrau

Syr,
Carwn ddal ar y cyfle i ddiolch i ardalwyr yr Eco am eu cefnogaeth i'r Gymanfa a gynhaliwyd yn y Capel Coch ac a ddangoswyd ar S4C nos Sul, 25 Mai. Ymddengys mai y farn gyffredinol yw i'r Gymanfa fod yn llwyddiant mawr gyda llu yn datgan eu mwynhad o'r rhaglen. Fel y soniais o'r blaen yn yr Eco, fy nymuniad oedd cael cynnal Cymanfa i dalu terynged i'r cyfansoddwyr a fu'n gysylltiedig â'r gwahanol bentrefi o fewn talgylch yr Eco ac, yn gam neu'n gymwys, teimlaf i'r freuddwyd gael ei wireddu'n llawn.

Diolch hefyd i aelodau'r Pwyllgor am eu brwdfrydedd. Pleser pur yn ogystal oedd gwrando ar y ddeuawd, Siân Gibson a John Eifion, yn cyflwyno emyn clodwiw Dilys Baylis a'i brawd, Edwin Lloyd Jones.

Bydd yr ail raglen ar y teledu ym mis Hydref gan mai rhema y rhaglen honno fydd 'Y Diolchgarwch', ac yn y rhaglen honno ceir cyflwyniad gan Gôr Plant Ysgol Brynrefail.

Rol Williams
Waunfawr

O bosib na chaiff Hogia'r Wyddfa ganu y gân boblogaidd honno am 'Hen Bentre Bach Llanbêr' mwyach! Sut felly?

Wel, yn ôl Taflen Cludiant Cyhoeddus Cyngor Sir Gwynedd am yr haf eleni, hynny yw o Fai hyd Fedi, fe welais y canlynol ar y dudalen gyntaf: *'Mapiau o dref Llanberis a phentref Llanrug'*.

A chan mai cyhoeddiad y Cyngor Sir yw'r daflen, a yw dyrchafiad Llanberis o'r herwydd yn swyddogol a'r gân boblogaidd bellach yn gamarweiniol?

Yn sgil hyn mae angen Maer i Lanberis ar frys. Pwy gawn ni d'wch?

Wil Pengwryd

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Tŷ Rhuddlan
Penrallt Uchaf
Caernarfon

Annwyl Olyydd,
Ysgrifennaf i hysbysu fod GISDA wedi cychwyn cynnal sesiynau Galw i Fewn yn Nhŷ Elidir, Deiniolen pob dydd Mercher rhwng 12.00 a 2.00 o'r gloch. Mae GISDA yn elusen sydd yn helpu pobl ifanc rhwng 16 a 25 i fyw yn annibynnol. Rydym yn cynnig cefnogaeth ymarferol i bobl sengl, merched beichiog a rhieni sengl. Yn wir, mae GISDA wedi helpu o gwmpas 200 o bobl ifanc trwy Wynedd yn y flwyddyn ddiwethaf i gael rhywle diogel i fyw. Er na allwn ddarganfod cartref parhaol bob tro yn syth, mae gennym hosteli tymor byr yng Nghaernarfon ac ym Mlaenau Ffestiniog.

Mae GISDA yn cynnig cyngor ar unrhyw broblem sydd yn ymwneud hefo cartrefi, neu digartrefedd. Rydym yn deall fod y problemau sydd yn wynebu pobl digartref yn fwy na diffyg to uwch eu pennau. Mae rhesymau dros ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc yn niferus, e.e. tor-perthynas, rhiant yn gadael ardal, problemau hefo budd-daliadau, camdriniaeth, problemau iechyd, anniogelwch, achos o drais yn y cartref, problemau tenantiaeth briefat, ayyb.

Rydym yn gweithio'n agos hefo cymdeithasau tai lleol ac asiantaethau gwirfoddol eraill i helpu pobl ifanc ddod dros problemau fel y rhain. Os ydych chi, neu rhywun yr ydych chi'n ei adnabod eisiau cyngor, galwch i mewn i Dŷ Elidir am sgwrs hefo Eryl Williams, neu galwch ein rhif ffôn 24 awr: (01286) 761153 – fe ffoniwch ni chi'n ôl yn syth.
Yn gywir,

Eryl Williams
Gweithwraig Allweddol

Peidiwch a gori ar stori anfonwch hi i'r ECO

Hafan
Caeathro

Annwyl Ddarllenwyr,
Mae teulu o dref Lannion, gogledd Llydaw, nid nepell o borthladd Roscoff, yn awyddus i rentu neu gyfnewid tŷ yng ngogledd Cymru am 8–10 diwrnod rhwngh 8 a 30 Gorffennaf eleni.

Pe bai gan unrhyw un dŷ addas, gofynnaf iddynt gysylltu â mi ar unwaith.

Yn gywir iawn
Clive James

A.S. ac A.C. yn Galw Artistiaid Ifanc

Wyt ti'n berson ifanc ac yn hoff o ddylunio a gwaith celf? Faset ti'n hoffi cael y cyfle i ennill tocyn anrheg £30 a gweld dy waith mewn print?

Mae dau o wleidyddion etholaeth Caernarfon – Hywel Williams, yr Aelod Seneddol ac Alun Ffred Jones, yr Aelod Cynulliad – yn cynnal cystadleuaeth i ddisgyblion ysgol a myfyrwyr coleg rhwng 11 a 18 oed i ddylunio cerdyn pen-blwydd 18 oed newydd a fydd yn cael ei anfon at bobl ifanc yn etholaeth Caernarfon.

Yr unig ganllaw ydi y dylai'r cerdyn fod yn Gymreig ac yn gyfoes ei naws. Gellir defnyddio unrhyw liw ac unrhyw siâp, a'i ddylunio gyda llaw neu ar gyfrifiadur.

Bydd yr enillydd yn derbyn tocyn anrheg gwerth £30 a bydd y dyluniad buddugol yn cael ei ddefnyddio ar y cardiau newydd.

Beirniad y gystadleuaeth fydd Dewi Pws, o'r gyfres deledu boblogaidd 'Rownd a Rownd'.

Anfona dy gynnig at Swyddfa'r Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SE, neu drwy e-bost: williams@parliament.uk. Y dyddiad cau ydi dydd Gwener, 25 Gorffennaf 2003.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltu gydag Elliw Williams neu Richard Thomas yn y swyddfa ar (01286) 672076.

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

RHODDION

£10: Er cof am mam, Hetty Hughes, Elizabeth Roberts; John H. Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis; Mrs Nan Jones, Perthi, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Mr Cledwyn Jones, Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.

£6: Iolo Llewelyn, Pantafon Bach, Llanrug; Di-enw.

£5: Ceinwen Williams, Llanberis; Gwyn Walker, Caerdydd; Elinor Williams a theulu'r diweddar R. O. Williams, 41 Rhydfadog, Deiniolen; Joyce Jones, 7 Bryn Moelyn, Llanrug; Llinos, Neil a Deio, Llanrug; John a Mair, Erw Grin, Bethel; Teulu Dolydd, Stad Tŷ Hen, Waunfawr; Kevin ac Anwen Jones, Gwel Fynydd, Clwt-y-bont, Deiniolen; Dilys Williams, 61 Pentre Helen, Deiniolen.

£2: Teulu Ty'n Rallt, Llanddeiniolen; Daniel Orritt, 7 Blaen y Ddôl, Llanberis.

£1.50: Anwen Davies, Alexandra House, Cwm-y-glo.

Ymddiheuriad am wall wrth nodi'r rhoddion. Cafwyd £5 gan Appy Jones, Llanberis a £10 gan Margaret Morris, Llanberis;

Mynd am Dro

Stori Math Emyr, Ysgol Gynradd Llanrug a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Rhyddiaith dan 8 oed yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Pan fydda i yn mynd i Glasfryn at Nain a Taid ar fy ngwyliau mae Taid a fi yn mynd am dro i ben Mynydd Ty'n Graig yn y picyp hefo Siôn a Llio a Llion. Mae Mynydd Ty'n Graig i fyny yn uchel iawn uwch ben Cefn Brith a pan fyddwn ni yn mynd yno mae'r ffordd yn andros o anwastad ac mae yna un bymp ofnadwy o fawr. Rydym ni yn taro ein pen ar do y picyp wrth fynd drosto fo ac yn chwerthin llond ein boliau.

Mae cŵn Taid yn dod yn y picyp hefo ni. Enw y cŵn ydi Pegsan a Fflei a Smot y ci drwg a Pwten a Cymro. Ni biau Cymro ond mae o ar ei wyliau yn tŷ Taid a Nain dros y gaeaf. Mae Pwten yn mynd i gael cŵn bach. Mae y cŵn yn mynd yn wirion bost yn y mynydd am bod nhw yn hoffi mynd am dro yno. Mae Fflei yn ffraeo hefo Pegsan ac mae Pegsan yn colli a Fflei yn curo. Bydd Taid yn cael trafferth hefo Smot. Dydi o ddim eisiau dod yn ôl i'r picyp. Mae Taid yn gorfod chwibanu a chwibanu ond dydi Taid ddim yn gallu ei gael yn ôl. Wedyn mae Taid yn gwylltio yn gacwn.

Mae Siôn a Llio a Llion a fi yn hoffi chwarae ar y mynydd ac weithiau mae ceffylau yn dod at y wal i'n gweld ni. Brown ydi'r ceffylau ac mae nhw yn wyllt. Mae nhw yn ganol y grug piws.

Mae Nain yn gwneud bwyd i ni fynd hefo ni am dro i'r mynydd. Rydym yn cael banana a iogyrt toffi a wotsit a dŵr ac mae Taid yn cael coffi. Rydym ni yn chwarae pêl cyn mynd adre.

Dwi wrth fy modd yn cael mynd am dro i Mynydd Ty'n Graig hefo Taid a bob tro pan fyddaf i yn mynd i Glasfryn byddaf i yn gofyn i Taid, 'Gawn ni fynd i ben y mynydd heddiw, plis?'

Cefnogwch
ein hysbysebwyr

Ras Antur Waunfawr ar ei newydd wedd

Yn dilyn 17 o flynyddoedd llwyddiannus o drefnu ras flynyddol pentref Waunfawr, mae Antur Waunfawr wedi penderfynu trosglwyddo'r awenau i grŵp lleol.

Bwriedir sefydlu pwyllgor o drigolion Waunfawr a'r ardal i drefnu ras eleni a'r gobaith yw, drwy ddod a gwaed newydd a syniadau newydd i mewn, y bydd y ras boblogaidd hon yn atgyfnerthu. Efallai dros y blynyddoedd nesaf y bydd modd datblygu Ras Waunfawr yn ddiwrnod llawn hwyl a gweithgareddau.

Ar hyd y blynyddoedd mae'r ras wedi denu rhedwyr o bell ac agos i gystadlu yn y ras fawr. (O.K. ac mae degau o blant a phobl Waunfawr wedi mwynhau rhedeg yn y ras hwyl ddwy filltir o amgylch y pentref.)

Gyda'r newyddion fod mwy a mwy o rasus lleol yn diflannu, dyma gyfle i wneud yn siŵr fod Ras Waunfawr yn tyfu ac yn ffynnu.

Eisoes mae nifer o fudiadau a chymdeithasau Waunfawr wedi enwebu cynrychiolydd i fod ar y pwyllgor newydd ac estynnir croeso i unrhyw un sydd â diddordeb cyfrannu i ras eleni, boed hefo syniadau newydd, cynnal stondinau a gweithgareddau ar y diwrnod, i redeg neu i fod yn swyddog (marshall), i ymuno â'r pwyllgor newydd.

Cynhelir y ras ym mis Medi, a bydd y pwyllgor newydd yn cyfarfod nos Fercher, 2 Gorffennaf yng Nghaffi Antur Waunfawr.

Am ragor o fanylion ffoniwch Jen Rowlands ar (01286) 650034 neu swyddfa Antur Waunfawr (01286) 650721.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

SPAR
Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES
GARTH MAELOG
51 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870840

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thrwdio peipiau
44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291
Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*. Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484
➤ Bysiau o 12 i 53 sedd
➤ Teithiau Lleol a Thramor
➤ Gwaith Contract
➤ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

O SIAMBAR SELWYN

Mi ges i'r fraint o ddathlu pen-blwydd go arbennig yn ddiweddar 'ma, ac mae gen i le i ddiolch. Diolch am gael bod ar yr hen ddaear 'ma am dri chwarter canrif, a diolch am gael nerth ac iechyd i fwynhau taith bywyd.

Yn Scarborough roeddwn i ar ddydd y dathlu. Treulio wythnos yn yr ardal hefo un o'r Cwmnïau Teithio lleol. Fûm i rioed yn y rhan yma o Loegr o'r blaen, ac mi fanteisiais ar y cyfle i ymweld â llefydd fel Bridlington, Whitby a York. Rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n treulio awr ddifyr bob nos Sul yn gwylio'r rhaglen *'Heartbeat'* a gallaf dystio bod 'na beint o gwrw ardderchog yn nhafarn y pentre bach sy'n denu miloedd o ymwelwyr oherwydd llwyddiant y gyfres.

Rhyfedd meddwl mai i Scarborough yr aeth W. J. Gruffydd i'w swydd gyntaf wedi iddo raddio yn Rhydychen. Fe dreuliodd dymor yn Ysgol Bramcote, Scarborough. Ysgol fechan gyda dim ond 49 o fechgyn ynddi ond doedd o ddim yn hapus iawn yno. Mewn llythyr at ei gyfaill Silyn Roberts fe ddywed, *'Bûm am y term dwethaf yn athro mewn ysgol yn Scarborough, ond y term nesaf yn mynd yn ail athro i "Ysgol wiw Biwmares". Welaist ti erioed y fath lawenydd oedd yn fy nghalon pan ges weld fy mod yn cael dod yn ôl i Gymru eto. Ni fu ar alltud o Iddew ymhlith "pobl anwar Pabyloniaid" erioed fwy o hiraeth am dref Caersalem nag oedd gennyf fi am Gaernarfon a Chymru, a wele fi'n awr yn cael dod yn ôl. Brysia dithau, yr hen gyfaill annwyl, yn ôl i'r hen wlad.'* (Roedd Silyn ar y pryd yn weinidog ar Eglwys Lewisham, Llundain. Bu yno o 1901 hyd 1905.)

Ydi mae Scarborough a'r cyffiniau yn lle citha dymunol i ymweld ag o, ond rhowch i minnau ardal yr Wyddfa a'i chriw i fyw ynddi.

O dreulio tri chwarter canrif yn yr hen fyd 'ma, mae rhywun yn naturiol yn dueddol i edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd. Fel y dywedais rydwi'n ddiolchgar am i mi gael nerth ac iechyd, ac o leiaf bum mlynedd o fonws dros oed yr addewid. Diolch i'r cyfeillion o Ddinorwig oedd ar y bws am iddynt sicrhau fy mod 'yn ymarfer ag ychydig win' ar noson y dathlu. Rydw i wedi addo iddynt y cânt wahoddiad i'r dathlu mawr ymhen chwarter canrif – os byw ac iach ynte!

Dwi wedi cael y fraint o ymweld â phob rhan o'r hen fyd 'ma yr oeddwn yn dymuno ei weld, a bellach rydwi wedi penderfynu peidio mynd ar deithiau hir mewn awyren. Gan fy mod i, rai blynyddoedd yn ôl bellach, wedi cael y fraint o fynd i waelod y byd, sef y Môr Marw, roedd o'n ddymuniad gen i gael gweld top y byd, sef Everest. Dim ond cael cip ar y copa. Cha' i ddim bellach. Mi rydwi'n difaru na fyddwn i wedi manteisio ar y cyfle i gerdded mwy ar yr hen fynyddoedd 'ma sy'n gylch o'm cwmpas. Dim ond 'i cerdded nhw – nid rhyfygu 'mywyd i'w dringo. Mae hi'n braidd yn hwyr i wneud hynny bellach hefyd.

Dwi'n siomedig hefyd na ches i'r cyfle i fod yn aelod o'r Urdd yn nyddiau 'mhlentyndod. Rhaid beio'r Ail Ryfel Byd am hynny. Siom arall a deimlais oedd na fu i mi wneud cwrs gradd yn y Gymraeg flynyddoedd yn ôl. Mi fydda i yn cael golwg ar y papurau arholiad yn achlysurol ac mi fydda i'n cysuro fy hun y byddwn i'n medru ateb amryw o'r cwestiynau heddiw ac, o bosib, yn llwyddo i gael cynffon o radd wrth fy enw. Ond dydi o ddim cymaint o gamp i ennill gradd heddiw. Fy hen gyfaill, Gwilym Owen, awgrymodd y bydd hi'n bosib, cyn bo hir, i gael gradd Prifysgol am wneud Jam riwbob.

Dwi wedi cyflawni y rhan fwya o bethau roeddwn i'n dymuno eu cyflawni. Mae'n rhaid i mi ymddiheuro i un o'r gweisg lleol am na fu i mi, hyd yn hyn, gasglu at ei gilydd gyfrol o atgofion. Cefais wahoddiad i wneud hynny tua phedair blynedd yn ôl bellach, ac fe addewais ymgymryd â'r gwaith cyn gynted ag yr byddwn wedi ymddeol o fod yn Glerc i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Efallai mai'r rheswm dros i mi oedi ynglŷn â'r mater ydi am y ffaith bod y rhan fwya o'r atgofion wedi ymddangos yn y golofn hon dros y blynyddoedd.

Er i mi gael y fraint o fod yn Glerc i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am yn agos i hanner canrif, fûm i rioed y 'bwyllgorddyn'. Yr unig ddau bwyllgor rydwi'n aelod ohonyn nhw ydi Bwrdd yr Orsedd a Pwyllgor Pêl-Droed Cynghrair Gwynedd. Rheswm da am hyn – Steddfota a Phêl-droed ydi fy mhrif ddiddordebau i.

Ar drothwy pob etholiad lleol bron mae 'na rai wedi ceisio fy mherswadio i sefyll etholiad. Na fu'r ateb bob tro. Ac, o sôn am etholiad, dwi'n hynod falch na fu i mi fopio 'mhen â gwleidyddiaeth. Fûm i rioed yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol. Gwnes addewid pan dderbyniais y swydd o fod yn Glerc i'r Cyngor, yn 1955, na fyddwn yn ymaelodi ag unrhyw blaid. Rwy'n bendant o'r farn nad oes lle i wleidyddiaeth unrhyw blaid o fewn i gyfrifoldebau Cynghorau Cymuned.

Wel, dyna fi wedi'ch diflasu drwy gael cip yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd a datgelu ychydig o ddymuniadau nas cyflawnwyd. Naturiol i rywun sydd wedi pasio oed yr addewid ydi edrych yn ôl.

Beth am y chwarter canrif nesa' 'ma? Wel, os byw ac iach, dal i fynd o Steddfod i Steddfod ac o Gymdeithas i Gymdeithas, a dal i deithio. Dwi'n edrych ymlaen at gael mynd unwaith eto ar fordaith i Wlad yr Iâ, Ynysoedd y Faroes a Greenland, gan alw yn Cobh, (Iwerddon) ar y ffordd adre. A dod adre mewn da bryd ar gyfer Prifwyl Meifod. Ac erbyn hynny mi fydd 'na dymor pêl-droed arall ar fin dechrau.

Ia, dilyn fy niddordebau wna i am y chwarter canrif nesa' 'ma hefyd – tra medra i.

Gyda llaw, ar Fai 19, 2028 y bydda i'n dathlu'r canfed. Pob croeso i chi ddod i'r parti. A chyfeillion Dinorwig – potel o'r un gwin coch os gwelwch chi'n dda – roedd blas mwy arno.

Gwyliau hapus i bob un ohonoch.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

GWERSI PIANO
Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
W. G. Roberts (Wil Korea)
676741
FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
PORCHES
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS
BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

ARVONIA
LLANRUG Ffôn: 01286 675175
GWYLIAU CARTREF A THRAMOR
Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

Ymestyn Rheilffordd y Llyn i Bentref Llanberis

Fel y gŵyr darllenwyr Eco'r Wyddfa, os oes gan Lerpwl ddwy eglwys gadeiriol, mae gan Lanberis ddau drên stêm. Bu stori am Reilffordd yr Wyddfa yn ein rhifyn diwethaf ond y mis hwn, tro Rheilffordd y Llyn yw hi i fachu'r penawdau drwy agor trac newydd sbon o'r Gilfach Ddu ym Mharc Padarn i gyrion Stryd Fawr Llanberis. Bellach, dim ond lled ffordd fawr sydd rhwng y naill drên â'r llall.

Ar 6 Mehefin yr agorwyd yr estyniad newydd, 875 metr, gyda 200 o westeion yn teithio ar y trên cyntaf un. Yng ngorsaf y llyn, ar ddechrau'r daith, yr oedd band jazz yn diddanu'r gwesteion. Croesawyd hwy yn yr orsaf newydd â chaneuon gan aelodau o adran yr Urdd Ysgol Dolbadarn.

Gyrrwyd y trên cyntaf gan Hefin Owen o Lanberis, y bu ei dad o'i flaen yn gyrru trenau ar lein fach y chwarel. Fflachiodd y goleuadau coch a disgynodd y barieri modern i rwystro cerbydau a cherddwyr wrth i'r trên ymlwybro heibio hen weithdai'r chwarel sydd bellach yn gartref i Amgueddfa Lechi Cymru.

Yna croeswyd pont newydd dros Afon y Bala sy'n cysylltu llynnoedd Padarn a Pheris, cyn bwrw ymlaen ar draws y ddôl tuag at y pentref. Cafwyd persbectif newydd hardd ar Gastell Dolbadarn yn y fargen.

Yn yr orsaf newydd dadorchuddiwyd plac i gofio'r achlysur gan Dafydd Wigley. Cafwyd areithiau pwrpasol yn diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant menter a olygodd fuddsoddiad gwerth bron i £1 miliwn i Gwmni'r Rheilffordd, gyda chymorth cyrff fel y WDA a Chyngor Gwynedd.

Meddai Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Rheilffordd y Llyn, Bill Fedrick, 'Mae heddiw yn ddiwrnod hanesyddol i'r Rheilffordd ac i bentref Llanberis.' Croesawyd yr estyniad newydd hefyd gan y cynghorydd sir lleol, Trefor Edwards. Meddai, 'Bydd y datblygiad yn dda i'r pentref ac i'r ardal.'

Ymweliad gan Gôr o'r Almaen

ond beth yw'r cysylltiad â Phatagonia?

Nos Fawrth, 15 Gorffennaf, bydd Côr St. Martin, Nörten Hardenberg yn canu yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon gyda Chôr Waunfawr. Bydd cyfle i glywed cerddoriaeth amrywiol yn yr iaith Almaenig, Cymraeg a Sbaeneg... ond pam Sbaeneg meddech chi?

Arweinydd y côr o Nörten Hardenberg yw Amanda Avila de Thren, sy'n dŵad yn wreiddiol o Santiago del Estero yng ngogledd yr Ariannin. Tra'n arwain côr yn Santiago y cyfarfu â Martin Thren – Almaenwr sydd bellach yn ŵr iddi. Treuliodd y ddau dair blynedd yn y Wladfa a thra'n byw yn Esquel, ger Trevelin, y dechreuodd Amanda ymwneud â Chôr Scion. Er nad oedd ganddi ddim cysylltiad Cymreig o gwbl, oherwydd ei diddordeb mewn canu yn y Gymraeg, dechreuodd fynychu dosbarthiadau i ddysgu'r iaith. Dyna sut y cyfarfu â Sioned Huws, oedd yn diwtor yno ar y pryd, ac sydd bellach yn aelod o Gôr Waunfawr.

Yn 2001 dychwelodd Martin i'r Almaen i weithio ym Mhrifysgol Göttingen ac yn sgil hyn cafodd Amanda wahoddiad i arwain Côr St. Martin.

Hwn fydd ymweliad cyntaf y côr â Chymru. Mae'n gyfle i gyfnewid ieithoedd a phrofiadau y ddwy wlad. Fel rhan o'r broses mae côr y Waun, dan arweiniad Gwenda Griffiths, wrthi'n dysgu cân neu ddwy yn yr Almaeneg a'r Sbaeneg tra bod côr St. Martin, yn yr un modd, yn dysgu canu yn y Gymraeg a'r Sbaeneg.

Dewch i'w clywed nos Fawrth, 15 Gorffennaf am 7.30 yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon. Mae tocynnau ar gyfer y cyngerdd ar gael gan Emyr Roberts (01286) 650128 neu Sioned Huws (01286) 650618.

DRAENOG

Bugeiliaid Colledig

Do, mi glywais i sawl cyfeiriad at y ddafad golledig – ond erioed y bugail colledig – hynny ydi tan y mis dwytha 'ma. Dwy stori a newidiodd fy meddwl.

Stori 1

Bugail o Nant yn ffonio'i wraig i ddweud fod 'na rywun wedi dwyn ei gar yn Llanbêr. Fe gymrodd bum munud da i'r hen foi gofio ei fod wedi prynu car newydd!

Stori 2

Un diwrnod CLOSS yn ystod y mis bu'n rhaid i fugail adnabyddus iawn o'r ardal fynd i ddisychedu ei hun i'r Dolbadarn. Bu yno am gryn amser cyn penderfynu 'i throi hi am adra. Yn anffodus, cafodd ddamwain a dduodd ei ddau lygad. Pwy oedd y digrifwr dideimlad ddeudodd ei fod o wedi gweld Mwhamed di dALI yn Llanbêr y diwrnod hwnnw?

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778 127394

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

CHWILOTA

O Landdeiniolen i Wisconsin

Mae hanes beudy Blaen Cae Isaf a gyhoeddwyd y mis diwethaf, wedi esgor ar gryn chwilota am hanes rhai o deuluoedd yr ardal a ymfudodd i'r America. Ac yn sgil y chwilio hwnnw cafwyd nifer o gyd-ddigwyddiadau a chopïau o'r llyfr prin y soniwyd amdano yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco'.

Wrth anfon y wybodaeth am Flaen Cae a'i efaill yn Wisconsin, soniodd Nia Williams am lyfr o'r enw *Hanes Boreuol Ardal Proscairon* a gasglwyd ynghyd gan y Parch Daniel Williams a'i gyhoeddi yn Bancroft, Iowa yn 1894. Tybed a oedd copi o'r llyfr hwn ar gael yng Nghymru? Roedd yn amlwg yn cyfeirio at rai o hen drigolion Llanddeiniolen a ymfudodd i'r America ac ymsefydlu mewn ardal a elwid yn Proscairon, gan adeiladu ffermdy a chapel o'r enw Blaen y Cae yno. Doedd y llyfr ddim wedi ei restru ar gatalog y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth na chwaith ar gatalog y 'Library of Congress' yn Washington. Ond doedd hynny ddim yn profi nad oedd ar gael yn unrhyw un o'r ddwy lyfrgell. Mae cryn ddiddordeb mewn cysylltiadau Cymreig yn yr America, ac y mae'r Ethnic Heritage Studies Center yng Ngholeg Utica wedi cyhoeddi (yn 1998) lyfryddiaeth o ddeunydd Cymraeg a Chymreig. I'r rhai sydd â diddordeb (a chyswllt a'r we), y cyfeiriad yw www.utica.edu/gce/groups/media/welshimprints.pdf Mae'r safle yn cynnwys llyfryddiaeth o tua trigain o dudalennau, ac yn eu plith mae *Hanes Boreuol Ardal Proscairon*, ond unwaith eto, nid yw'n nodi ble mae'r llyfr ar gadw.

Wedi cryn holi a chwilio yn Aberystwyth, daethpwyd o hyd i gopi o'r diwedd. Rûm hefyd yn pori mewn llyfr arall, sef *The Welsh in Wisconsin* gan Phillips G. Davies (cyhoeddwyd gan Gymdeithas Hanes Talaith Wisconsin yn 1982). Gyda diolch i Arfon Roberts o Bwllheli am fy nghyfeirio i'r llyfr hwn, a hefyd am wybodaeth fywgraffyddol am rai o'r hen drigolion wedi eu cofnodi ganddo o rifynnau o *Cyfaill o'r Hen Wlad* (cylchgrawn misol y Methodistiaid Calfinaidd yn America) a *Y Cyfaill* (cylchgrawn misol y Presbyteriaid Cymreig UDA).

Mae nifer o gyfeiriadau at ardal Proscairon, ond buan y sylweddolais fod o leiaf ddwy ardal o'r enw hwn yn bodoli; y naill yn Wisconsin a'r llall yn Minnesota (gweler *Hanes Cymry Minnesota* a gyhoeddwyd yn 1895). Y mae a wnelom ni ag ardal Proscairon, Wisconsin.

Mae hen ddywediad yn America am rai o'r ymfudwyr cynnar. 'Ypeth cyntaf a wnaiff y Ffrancod yw codi canolfan fasnachu; yr Almaenwyr yn codi ty cwrw a'r Cymry yn codi capel.' Yn 1872 amcangyfrifwyd fod 83 o gapeli Cymraeg yn nhalaith Wisconsin, pedwar deg a chwech o weinidogion Cymraeg eu hiaith a phymtheg o bregethwyr. Roedd aelodaeth y gwahanol gapeli yn agos i bedair mil, ond roedd bron i ddeng mil yn mynychu'r gwasanaethau ond heb fod yn llawn aelodau.

Yn 1894 pan gyhoeddwyd *Hanes Boreuol Ardal Proscairon*, cyfundeb Wisconsin oedd y mwyaf ymhlith Methodistiaid Cymraeg America, a'r cyfarfod dosbarth mwyaf o fewn y dalaith honno oedd un Welsh Prairie. O fewn y dosbarth hwnw yr oedd Proscairon.

Cymry o blwyf Llanddeiniolen oedd y rhai cyntaf i sefydlu yn yr ardal, a hynny mor gynnar â 1840 neu 1841. Roedd Hugh Morris (o'r Fachwen) a'i deulu eisoes wedi cyrraedd Racine ar lannau Llyn Michigan erbyn Mai 1844. Ac yn ystod Awst y flwyddyn honno roedd Catherine Foulkes, Blaen y Cae, Llanddeiniolen, a'i meibion, Dafydd, Foulk a Thomas yn hwylio o Lerpwl am yr America. Galwodd ei chartref newydd yn America wrth yr un enw, ac erbyn mis Tachwedd 1844 sefydlwyd yr Ysgol Sul gyntaf yn y Blaen y Cae newydd.

Oddi yno, symudodd rhai o'r teuluoedd i ardal Proscairon. Dafydd Roberts (Blaen y Cae) oedd y cyntaf i adeiladu tŷ yn yr ardal, a hynny yn 1845. Dilynwyd ef gan Thomas H. Roberts, mab Hugh a Mary Roberts, tŷ capel Ysgoldy, Llanddeiniolen. Dilynwyd ef gan ei chwaer, Mary Hughes, gweddw William Hughes, a laddwyd yn Chwarel Dinorwig. Yn ddiweddarach, priodod hithau â John D. Williams, saer coed a fu'n gyfrifol am godi capel cyntaf Proscairon yn 1850. Y trydydd person i adeiladu tŷ yno oedd John O. Owens, un arall y bu ei rieni, Owen ac Elizabeth Owens yn cadw tŷ capel Ysgoldy. Cafodd addysg gerddorol gan William Rowlands, Weirglodd Goch, a phan sefydlwyd yr achos Methodistaidd ym Mrynrefail, John O. Owens oedd yn gyfrifol am ddysgu canu yno. Roedd erbyn hynny'n byw yn y Cytir. Ymfudodd ef a'i briod, Elisabeth (merch Tyddyn Bisla, plwyf Llanrug) yn 1845. Mae traddodiad teuluol yn cofnodi mai priodas y ddau hyn yn Llanddeiniolen oedd y briodas ddirwestol gyntaf yn y cyffiniau. Hynny yw, dyma'r briodas gyntaf yn yr ardal i beidio â pharatoi gwirodydd ar ddydd y briodas, fel yr oedd yn arferol i'w wneud cyn hynny. Roedd hyn, wrth gwrs, yn dilyn y diwygiadau dirwestol yn ystod 1830'au. Roedd John Owens yn cael ei adnabod fel 'John Owens y canwr.'

Un arall a hwyliodd o Lerpwl yn Awst 1844 oedd John Evans (jockey) a'i deulu. Tybed pam y galwyd ef wrth yr enw hwnuw? Mab iddo oedd John J. Evans. Fe'i ganed yn Clegir, Llanddeiniolen. Dywedir mai diwrnod yn unig o ysgol a gafodd, oherwydd lladdwyd ei frawd yn y chwarel a bu'n rhaid iddo yntau adael yr ysgol i helpu cynnal y teulu. Dechreuodd bregethu ar ôl cyrraedd ardal Blaen y Cae, ac fe'i hordeiniwyd yn weinidog. Priodod â merch o Landdeusant, Môn. Ym mis Ionawr 1873 cafodd y pâr, a'u merch ieuengaf, eu dal mewn storm enbyd o eira yn Filmore, Minnesota, a rhewodd y tri i farwolaeth.

Cawn fwy o hanes teuluoedd Llanddeiniolen a'u cysylltiadau Americanaidd yn y rhifyn nesaf.

Cwmnïau Llongau

Yn dilyn y cais fis diwethaf am unrhyw wybodaeth parthed cwmnïau llongau o Lanberis a Chlwt y Bont, cefais fenthyg dogfennau yn ymwneud â'r llong *Dominion* gan Mrs Margaret Cynfi Griffth. Mae'n credu mai eiddo ei thaid, y diweddar William Ellis, 2 Ta Fictoria oedd y dogfennau. Mae'n bosibl felly fod aelodau o'r tenlu wedi bod yn gyfranddalwyr o'r llong. Mae'r ddogfen gyntaf yn rhoi manylion am wythfed mordaith y *Dominion*, a'r rheini i gyd wedi eu cofnodi yn Gymraeg. Fel hyn y mae pennawd y cyfrifon yn darllen: *'Crynhodeb Cymraeg o gyfrifon yr wythfed fordaith, sef o Ebrill 6ed 1884 hyd Medi l af 1885.'* Roedd y llong yn hwylio o borthladd Y Felinheli, oherwydd yno mae biliau docio, yswiriant, adgyweirio ac yn y blaen, yn cael eu talu. Mae'n ymddangos fod dau gapten wedi bod yn gyfrifol amdani dros y flwyddyn, Capten Pritchard a Capten E. Davies. Bu'n hwylio o Coconada a Madras gyda chargo o siwgwr, olew, 'redwood' a baco. Ond yn ôl y cyfrifon, a archwiliwyd gan rhyw David Williams ar Fawrth 17eg y flwyddyn ddilynol, gwnaethpwyd colled o dair mil a hanner o bunnau ar yr wythfed mordaith!

Nid yw'n syndod felly, fod yr ail ddogfen yn annog cyfran-

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR

•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant

• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol

• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

ANTUR WAUNFAWR

01286 674 155

www.anturwaunfawr.org

ddalwyr i Ysgoldy Penisa'rwaen ar nos Iau, Chwefror 23ain 1888 *'er cynllunio pa fodd i gyfarfod y ddyled.'*

Oddi mewn i'r rhybudd ceir crynodeb o fantolen yr wythfed mordaith, a hefyd fanylion am y nawfed mordaith, a fu'n cario glo o Gaerdydd i Monte Video a choed o Pensacota i Grangemouth. Bu'r fordaith hon ar ei hennill o bron i dri chan punt.

Yn dilyn ceir manylion am rwymedigaethau'r cwmni. Gwnaethpwyd colledion ar y seithied mordaith (bron i £700) a'r wythfed (dros £3500), ond enillion ar y nawfed (bron £300) ac ar y degfed, hyd ddiwedd Ionawr 1888, (£200).

Roedd gan y cwmni tua £400 mewn llaw, ond dyledion o £4,900.

A dyna'r cyfan o wybodaeth a geir yn y dogfennau. Byddai'n ddiddorol darganfod i ba gwmni y perthynai'r *Dominion*, a beth fu hanes y cwmni yn dilyn y cyfarfod tyngedfennol hwnnw ym Mhenisa'rwaen. Bydd angen chwilota adroddiadau papurau newyddion y cyfnod i gael mwy o'r hanes, ac o bosibl holi a oes cofnodion log y llong ar gof a chadw yn yr Archifdy. Bydd yn rhaid aros am y canlyniadau hyd y mis nesaf.

Ymatebion

Dros y mis diwethaf derbyniais sawl galwad ffôn a phytiau o nodiadau yn ymateb i rai o'r amrywiol bynciau a grybwyllwyd yn y golofn dros y misoedd diwethaf. Gan Huw Roberts, Pwllheli (Llanberis gynt), cadarnhad fod Miss Hughes, Standard III yn *'bladras o ddynas fawr, a chym'ra hi ddim lol gan neb'* – ond yn cofio dim am ei moto beic.

Crybwyll hefyd fod un gangen o deulu'r diweddar Arglwydd Cledwyn yn dod o Waun Cwmbrwynog; teulu'r Brithdir o bosibl.

A thra'n sôn am deulu'r Arglwydd Cledwyn, cael galwad gan Mrs Shirley Griffith o Gaerfyrddin yn nodi fod cyfnither iddo, Katie Deuyer (Roberts gynt) wedi ei hethol yn Ddinesydd y Flwyddyn yn Ottawa, Canada oherwydd ei gwaith diflino gyda'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd ganddi ddaliadau sosialaidd mwy eithafol na'i chefnder, mae'n amlwg, oherwydd, yn ôl Mrs Shirley Griffith, gwrthododd dderbyn yr OBE am waith gyda'r *'evacuees'* yn Llundain yn ystod yr ail Ryfel Byd.

Mae Mrs Griffith hefyd yn cyfeirio at y cais ynglŷn â pherthnasau'r Dr Kate Roberts yn Llanberis, ac yn cofio fod 'Roberts y Post' yn arfer cael llyfrau gan ei berthynas, a'r rheini wedi eu llofnodi ganddi. Oes rhywrai o'r darllenwyr yn medru rhoi mwy o wybodaeth am y gŵr hwn a fu'n cadw'r Post yn Llanberis?

Daeth ôl-nodyn hefyd gan Mrs Rhian Williams, Rhiwbeina, Caerdydd ynglŷn â chardiau post teulu'r Hume, a sut y daethant i feddiant ei mam. Roedd Lena Hume, sef Mrs D. S. Owen, yn byw yn 21 Stryd Fawr, Llanberis, ac yn ffrindiau pennaf â mam Rhian Williams. Credai iddi gael damwain i'w choes pan yn blentyn, a bu'n gloff gydol ci hoes. Roedd ganddi dri o feibion ac, fel aelodau eraill o'r teulu, aeth o leiaf un ohonynt i'r mor.

Teulu'r Byng, Llanberis

Daeth cais am wybodaeth am y teulu hwn gan un o'r darllenwyr. Os cofiwch, cyhoeddwyd llun o'r teulu yn y gyfrol *Hen Luniou Bro Eco'r Wyddfa*. Mae'r llun wedi ei dynnu yn 1907, ac yn dangos Griffith ac Ann Hughes a'u teulu. Mae'r pram a ddangosir yn y llun bellach ym meddiant yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Os oes rhywrai o ddisgynyddion y teulu hwn yn barod i roi gwybodaeth, cysylltwch â mi.

Cadw Enwau Llafar

Rai rhifynnau yn ôl cyfeiriais at arfer gan Gymdeithas Hanes ardal Blaenau Ffestiniog i geisio cofnodi a lleoli ar fap, enwau a ddefnyddir ar lafar ar wahanol rannau o'r dirwedd. Cafwyd sawl ymateb hyd yma, a rhai addewidion!

Y mis nesaf ceir manylion diddorol am ardal Llanberis wedi eu casglu gan Alan Roberts, Llainwen Isaf. Aeth ati, nid yn unig i gofnodi rhai o'r enwau a ddefnyddir ar y llethrau uwchben Llanberis, ond hefyd i roi pytiau o wybodaeth ychwanegol am rai o'r lleoliadau ac, yn bwysicach fyth, fe'i cofnododd i gyd ar fap. Dyna'r wledd fydd yn ein disgwyl y mis nesaf felly.

Diolch hefyd i Mrs Eirlys Williams am anfon atgofion ynglŷn ag arferion y cartref. Cawn roi mwy o sylw i'r rheini hefyd y mis nesaf.

Yn y cyfamser, os oes unrhyw un â mwy o wybodaeth am unrhyw un o destunnau'r mis hwn, cofiwch gysylltu ar y ffôn neu drwy bwt o lythyr. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffon 01286 673515).

Peidiwch a gori ar stori anfonwch hi i'r ECO

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: **(01286) 872501**

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
Eifion Hughes (7 diwrnod)
Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

H. E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444

- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

HELYNT CWM-Y-GLO'

Digwyddiad go ryfedd yn Garej Cwm Glo

Cwsmer o'r enw Ifan yn mynd o'i go,
Yn wên bob amser, yn llenwi'r 'Focus'
Ag off heb dalu a Forget us

'Wel, wel,' meddai'r perchennog,
'Mae wedi diflannu fel sgwarnog;
Galwa'r heddlu cyn iddo fynd rhy bell,
Mae eisiau Insiwrans i roi ef mewn cell.'

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Eluned ac Alun Owen, Rhiwlas ar enedigaeth eu merch fach Manon Fflur, oddi wrth deulu Cwm-y-glo a theulu Sir Fôn.

LLONGYFARCHIADAU i holl blant y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau y tymor hwn. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

CAPEL Y TABERNACL. Trefnwyd taith gyda chydweithrediad 'Teithiau'r Grug' i Bewdley a Safari Park dydd Sadwrn, 21 Mehefin. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

UNDEB Y MAMAU. I ddiweddu ein cyfarfodydd am y tymor, cynhaliwyd noson Moes a Phryn (Bring & Buy) yn yr ysgol Gymuned Nos Lun 2 Mehefin. Dechreuwyd y noson gyda gweddi gan y Curad Parch Vittoria Hancock; Ar ol y prynu cafwyd lluniaeth wedi ei ddarparu gan Mrs E. Taylor a Mrs. I. Ransom. Trafodwyd rhai materion gan yr ysgrifenyddes a godwyd ym mhwyllgor y Ddeoniaeth a gynhaliwyd ar 13 Mai.

Bydd cyfarfod y cyngor nesaf yn cael ei gynnal yn Llanfaelog ar I Gorffennaf. Cynhelir Prynhawn Tawel yn Aberdaron ar 4 Medi.

Gwnad elw o £1160 ar Ddydd y Farchnad a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar. Arfon ac Ogwen £169.

Bydd cyfarfod nesaf y ddeoniaeth yn cael ei gynnal ar 27 Hydref yn Llanfairisgaer. Dymunwyd pob hapusrwydd i'r Parch Philip Hughes a Mrs Hughes yn eu cartref newydd yn Llanfairpwll.

Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs. Marjorie Roberts Enillwyd y raffl gan Mrs Dorothy Jones.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras.

GWEITHGAREDDAU'R WYTHOS

29 MEHEFIN — 4 GORFFENNAF

Nos Sul 29 Mehefin yn yr Ysgol Gymuned am chwech o'r gloch. Noson o Gân, Arweinydd: Mrs. Lowri Prys Roberts Williams; Mr. Gareth Jones a Chôr Lleisiau Lliwedd. Casgliad ar y noson;

Nos Lun 30 Mehefin

Cystadleuaeth Dartiau – rownd gynderfynol a therfynol yn y Fricsan am 7. 30 o'r gloch;

Nos Fawrth I Gorffennaf

Noson Disco yn yr Ysgol Gymuned am 6.30 o'r gloch;

Dydd Mercher 2 Gorffennaf.

Diwrnod Agored gan Menter Fachwen.

Nos Iau 3 Gorffennaf

Noson Gwis yn y Fricsan am 8.30 o'r gloch;

Prynhawn Sadwrn 5 Gorffennaf

Prynhawn o Hwyl, Chwaraeon a Stondinau yn y Cae Chwarae am 1.00 o'r gloch.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Caryl ac Awen Jones, Na Nog ar eu llwyddiant yn yr Arholiad canu'r piano Gradd 3 dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

PWYLLGOR CYMUNEDOL.

Cyfarfu'r Pwyllgor yn y Festri nos Iau, Mehefin 5ed dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones. Hysbyswyd fod cais pellach am arian nawdd wedi ei gyflwyno i Gronfa Galluogi Gwynedd. Cafwyd adroddiad gan yr is-bwyllgor codi arian lleol yn amlinellu nifer o weithgareddau arfaethedig i godi arian. Diolchwyd i Mr J.McBryde am baratoi manylion drafft Clwb 100 a chytunwyd yn unfrydol i symud ymlaen â'r cynllun.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Festri nos Iau, Gorffennaf 10fed am 7 o'r gloch.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn anffodus bu raid gohirio cyfarfod Mehefin oherwydd anallu y gwestai i fod yn bresennol ar y funud olaf. Bydd cyfarfod mis Gorffennaf yn cael ei ddwyn ymlaen wythnos i nos Lun y 14eg. Hwn fydd y Trip Dirgel Blynyddol a drefnir gan y Llywydd, Mrs Pat Jones, a bydd y bws yn gadael ger pont y pentref am 6 o'r gloch.

FFAIR HAF Cynhaliwyd Ffair Haf lwyddiannus ddydd Sadwrn, Mehefin 14eg yng Nghae Chwarae'r pentref. Roedd yr elw o £505 a wnaed yn mynd i Gronfa Elusennol 'Annie's Orphans' dan nawdd Eglwys Bentecostaidd, Bangor. Dymuna'r trefnydd Sue Powell, Isallt ddiolch yn wresog am bob cefnogaeth leol i'r gweithgareddau.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Festri nos Iau, Mehefin 12fed.

Y cadeirydd oedd Mr Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Cymerwyd at y rhannau arweiniol ar thema'r Pentecost gan Mrs Verna Jones, Meillionen. Y siaradwr gwâdd oedd Mr Maldwyn Thomas, Bangor. Yn ei ddull dihafal cafwyd cyflwyniad bywiog ac addysgiadol dan y teitl 'Wel dyna i chi stori dda.' Diolchwyd yn gynnes iddo gan y cadeirydd. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian a Mrs Pat Jones, Cae Coch. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal wythnos ynghynt nag fel yr hysbysir yn Rhaglen y Tymor, sef nos Fawrth Gorffennaf 1af. Un o drigolion y pentref fydd y siaradwr gwâdd, sef yr Athro Gareth Edwards-Jones, Fferm Penllyn.

BEDYDD. Yn yr oedfa fore Sul, Mehefin 22ain, gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu, bedyddiwyd Aaron Lloyd Williams, mab bychan Tudur Lloyd Roberts, Llwyncoed Bach a Carol Ann Williams, 21 Drefian, Rhosgadfan.

OEDFAON GORFFENNAF

6 Parch Gareth Maelor Jones, Llanwnda am 10.00
Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon yn Ebenezer, Clynnog am 6 o'r gloch.
Arweinydd: Mr Robin Jones, Bethel; *Organydd:* Mrs Lowri Roberts Williams, Brynrefail;
Llywydd: Y Parch Gwenda Richards, Caernarfon
13 Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 5.30 pryd y gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd:
20 Mr J. O. Roberts, Bethesda am 5.30 o'r gloch;
27 Mr Norman Closs Parry, Treffynnon am 10.00 o'r gloch.

YR ECO. Diolch i bawb a ddaeth i noson plygu'r Eco yn Ysgol Gymunedol Cwmyglo nos Iau Mehefin 29ain, gyda diolch arbennig i'r ieuenctid a weithiodd mor ddiwyd ac i Nia Heledd a fu mor brysur yn helpu. Mae ein diolch hefyd i Mrs Gwawr Morris, Y Griolen am ei gwaith fel dosbarthwr yn y pentref yn ystod y tair mlynedd ddiwethaf a gwerthfawrogwn fod Mrs Pat Jones, Cae Coch wedi ymgymryd â'r gwaith o hyn ymlaen.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Ar Ben Arall y Lein

Dyna fis tawel eto heibio, dim llawer o ddŵr ac felly dim llawer o ymdrech ar yr afonydd. Rheswm arall wrth gwrs yw'r reol ofer yna sydd wedi cael ei rhoi mewn grym gan Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ei gwneud yn amhosib i unrhyw un 'sgotwr gadw eog at ei swper tan ar ôl 16 Mehefin. Rheol hollol afresymol gan ei bod yn caniatau 'sgota gyda abwyd yn ystod y cyfnod gwaharddedig yma. Rwan sut, mewn difri, mae'n gyfreithlon i ddal sewin neu frithyll brown gyda pryf genwair a'u cario gartref am brydyn, ac os y gwnaiff eog benderfynu brathu yr un abwyd yna mae'n rhaid ei roi yn ôl i'r afon. Beth yw cyfle y creadur yma i fyw yn hir ar tybed? Cefais fy nysgu erioed, os am gadw rhywbeth am y fordd yna reol aur yw ei anfon or fuchedd hon yn unionsyth.

Cyn i rai ddechrau dweud fod lladd unrhyw greadur yn beth ddyliau gael ei wahardd yn gyfan gwbwl, yna cfallai y buasai'r ddadl yn haws eu deallt os buasai rhai yn anelu ei cwynion ar sut mae'r llongau pysgota mawr ar ein moroedd yn dal, a chofio am hyn pan maen't yn mwynhau sglodion a penfras, neu llawer o'n bwydydd sydd wedi ei magu ar gyfer y farchnad a heb weld llygedyn o olau dydd.

Dyna ddigon am y pregethu, mae llawer o weithgareddau eraill yn cael ei dilyn ar y funud, mae'n rhaid canmol yn aruthrol y ddau griw sydd wedi bod wrthi mor ddiwid yn ystod y misoedd diwethaf yn glanhau, codi Pontydd a camfeudd yn enwedig ar y seiont, y darn presenol i gael sylw yw ardal Cwm y Glo, mae'r glannau yn werth yw gweld. Yn ogystal mae'r jeti ar Lyn Nantlle bron a cael ei gwbwlhau, rhyw ddiwrnod o waith eto. Bydd y cynllun yma yn rhoi cyfle arbenig, yn enwedig i rai sydd mewn cadair olwyn i sgota yn ddidrafferth yn y Llyn Arbenig yma. Hoffwn hefyd ddiolch o galon i'r ffermwyr a this feddianwyr lleol am ei cyd-weithrediad di flinedig yn ein hymdrechion i wella cyfleuon i pawb.

Mae newydd arbenig wedi ei dderbyn yn yr wythnosau diwethaf ynglyn a Melin y Cim, mae cronfa Treth Agreg wedi cadarnhau ei cymorth i'r cynllun, yn ystod yr wythnosau nesaf bydd trafodaeth gyda'r Cyngor Cefn Gwlad ynglyn ar Ystlumod, wedyn gyda pob gobaith cawn ddechrau ar y gwaith adnewyddu o fewn wythnosau.

Mae'r clwb yn berchen ar oddeutu 14 erw o dir ym Mhont Rug sy'n rhan o gynllun cadwraeth cynefinoedd. Mae tir yn cael ei ffensio yn gyfan gwbwl yn yr wythnosau nesaf, ac o dan y cynllun mae'n bosid ei osod allan i bori o ddiwedd Awst i ddechrau Mawrth yn flynyddol. Mae cyfleusterau ardderchog, gyda ddŵr a mannau parcio a llwytho. Nid yw'n cytundeb yn galluogi defaid fod ar y tir, felly merlod neu fustych yn unig. Os a diddordeb neu am roi cynnig yna ffoniwch 01248 670 666.

HUW PRICE HUGHES.

A yw'r ddau aelod yma yn gwybod fod na ddwy bont yn croesi'r Seiont ym Mhenllyn?

Taith Elizabeth Woodcock i Beriw

Cronfa Tearfund ym Mheriw

Mae Periw yn wlad amrywiol iawn gyda phum deg o ieithoedd brodorol yn cael eu siarad ymhlith dim ond 25 miliwn o bobl.

Buom yn aros ym mhrifddinas Lima; yn ardal yr anialwch ger arfordir y Môr Tawel, a hedfan uwchben mynyddoedd uchel yr Andes gan ymweld â phentrefi'r goedwig law. Gwelsom bobl yn byw mewn tai a oedd yn debyg i'r math o dai a geir yn ne Ewrop ac eraill, o fewn yr un ddinas, yn byw mewn cartrefi bregus wedi'u gwneud o fambŵ, heb adnoddau fel dŵr yfed glân, trydan na system garthffosiaeth. Cawsom gyfarfod pobl oedd yn gobeithio ac yn gweithio am well safon byw ym mhentrefi'r goedwig law, a chyfarfod miliynau a oedd wedi ffoi i Lima er mwyn dianc rhag terfysgaeth a thlodi.

Roedd y prosiectau y buom yn ymweld â hwy yn rhai amrywiol iawn hefyd. Prosiectau gweithwyr crefft yn Lima; merched a phlant yn derbyn cymorth i oresgyn trais yn y cartref; gwith hawliau dynol yn y carchardai – yn helpu y carcharorion a'r swyddogion carchar fel ei gilydd; addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion a rhaglenni gofal iechyd ym mhentrefi'r goedwig law.

Mae'r prosiectau yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau cyfan, gan weithio drwy unigolion. Mae pobl yn cael eu parchu a chael bod yn rhan o'r gwaith i wella eu bywydau. Mae'r gwaith hwn yn gynaladwy ac wedi'i gynllunio ar gyfer y tymor hir.

Daeth Iesu i roi bywyd i ni, a hwnnw'n fywyd llawn. Wrth gefnogi'r partneriaid hyn mae Cronfa *Tearfund* yn rhoi yr un cyfleoedd i'r bobl dlotaf ag i'r gweddill ohonom.

Ers imi ddychwelyd adref rwyf wedi medru siarad gyda llawer o wahanol grwpiau o bobl am waith cronfa *Tearfund* ac rwyf yn wirioneddol ddiolchgar am yr holl gyfleoedd hyn.

Os hoffech wybod mwy am waith cronfa *Tearfund* ym Mheriw, yna cysylltwch â mi, Elizabeth Woodcock os gwelwch yn dda ar (01286) 870121 neu elis@fish. co.uk neu gysylltu ar www. tearfund.org.

Plant yn cael brecwast yn yr Ysgol Sul, Lima (Eglwys 'Huertos de Getsemane')

Marco yn gweithio ar glustdlysau arian patrwm Celtaidd ar gyfer y catalog Tearcraft 2003.4.

DRAENOG

'Prins, Prins – lle rw't ti, Prins?'

Dyna'r gri oedd yn diaspedain hyd strydoedd Llanberis un diwrnod yn ystod y mis. Meddyliodd rhai fod Camelia Parker-Bowles wedi symud i'r pentre! Ond, Prins y ci oedd ar goll.

'PA DARN o Lanbêr ddylia ni chwilio gynta?' gofynnodd y perchennog yn drist. Ond, er yr holl chwilota, ofer fu ymdrechion glew y teulu... hyd nes iddynt droi am y ciando. Pwy oedd yn cysgu'n sownd ar y gwely? Ia, 'da chi'n iawn! Ond does dim PREIS i'w gael am ddyfalu!

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £84.89 yng Nghaeathro gan Verra Roberts. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

CLWB Y MERCHED. Daeth nifer dda ynghyd eto i gyfarfod mis Ebrill. Croesawodd a diolchodd y Cadeirydd, Marian Huws, i Mrs Brenda Williams o Groeslon am noson llawn egni a hwyl wrth geisio dangos sut i feistroli'r Ddawns Linell. Collwyd nifer o bwysau gan y merched cyn diwedd y noson oherwydd eu brwdfrydedd! Marian Huws roddodd y raffl, a enillwyd gan Mrs Brenda Wiliams. Bethan Iwan a Iona Ceiriog oedd yn gyfrifol am y te a'r bisgedi. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddarparu'r lluniaeth ar gyfer y rhai a gymerodd ran yn y cyngerdd yn y Ganolfan yn ddiweddar.

Noson gartrefol a hynod o ddiddorol a gafwyd ym mis Mai. Daeth nifer o aelodau'r Clwb a chasgliad amrywiol o eitemau i'w gweld a'u trafod. Ymysg y casgliad cafwyd eitemau amhrisiadwy teuluol; eitemau o'r oes a fu wedi eu cadw a'u trysori a hanesion ysgrifenyddol o drigolion enwog y pentref a roddodd Caeathro ar y map. Bu crafu pen wrth ddyfalu pwrpas un neu ddau o'r eitemau. Braf oedd gweld yr aelodau yn ymbleseru yn yr hyn a ddangoswyd. Rhoddwyd y raffl gan Harriet Roberts ac fe'i enillwyd gan Heather Jones. Trefnwyd y te a'r bisgedi gan Rhiannon Roberts ac Olga Evison.

GWASANAETHAU'R CAPEL.
Tan yr haf y gwasanaethau yn ystod Gorffennaf fydd:

6: 10.00 Parch Reuben Roberts; 11.00 Ysgol Sul.
13: 11.00 Ysgol Sul;
20: Dim Gwasanaethau.
27: 2.00 Parch Gareth Maelor.

CYDYMDEIMLWN â Rita a'r teulu ar farwolaeth sydyn 'Gero', Geraint Owen, Tai Glangwna yn 63 oed yn ystod gwyliau yn yr Alban.

MIRI HAF. Cynhelir y Miri Haf eleni ar ddydd Sadwrn, 19 Gorffennaf.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Mehefin oedd: £40: (40) Arwel Griffiths, 4 Tai Glangwna; £25: (22) Leti Williams, Refail; £15: (4) Mike Williams, Rhyddallt Ganol; £5: (75) Mai Jones, Crud yr Awel.

YMDDIHEURIADAU. Oherwydd blerwch y Post Brenhinol ni chyrhaeddodd llythyr o Gaeathro i Gibyn efo newyddion yr Eco ar gyfer mis Mehefin.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Richard Jones, Tryfan ar ei ben-blwydd yn 50 oed.

YMWELYDD. Un o'r ymwelwyr ymlycaf i'r fro hyd yma eleni oedd Robbie Savage. Roedd pêl-droediwr Cymru yn ymweld â pherthnasau yng Nglangwna.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

CAPEL REHOBOTH. Ar nosweithiau Mercher am 7.00 o'r gloch tan tua 9.00 bydd gwersi tennis bwrdd (ping pong) yn cael eu cynnal yn y festri. Bydd plant wrthi yn gyntaf ac yn cael eu dilyn gan bobl ifanc, ac yna cyfle i'r oedolion am tua 8.00 o'r gloch. Cynhelir y sesiynau gan Mr S. Adams, hyfforddwr tîm iau Cymru. Croeso i bawb. Hefyd, mae nwyddau 'masnach deg' yn cael eu gwerthu, a darperir paned.

Ar nos Fercher, 9 Gorffennaf, cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn y festri am 7.00 o'r gloch i drafod y cynllun o addasu'r festri yn neuadd bentref i'r Nant. Croesawn eich sylwadau am y defnydd cymunedol yr hoffech ei weld yn y festri.

Cyhoeddiadau Rehoboth am fis Gorffennaf: oll am 2.00 o'r gloch yn y prynhawn.

13: y Gweinidog, (Oedfa Gymundeb)
20: y Gweinidog
27: Y Parch Eric Jones, Bangor.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £31.00. yn Nant Peris gan Prydwen Pritchard. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

WYTHNOS GARNIFAL.
Nos Lun, 21 Gorffennaf:
Noson Cwis am 9 o'r gloch;
Nos Fawrth, 22 Gorffennaf:
Noson Dart am 8 o'r gloch;
Nos Wener, 25 Gorffennaf
Carnifal yn cychwyn am 6.30 o flaen Bro Glyder
Dewch i gefnogi ein Carnifal bach ni.

Royal Victoria Hotel
LLANBERIS
Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU · PARTÏON · DATHLIADAU ac ACHLYSURON ARBENNIG
CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a PHWYLLGORAU
BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL
Ffôn: (01286) 870253

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £384.99 yn Neiniolen gan A.K. Williams, Sylvia Jones, Jane Thorman, Carys Thomas, Lona Lewis, Eirian Jones, Helen Jones, Margaret Williams a Betty Williams. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL. Dymuna pwyllgor Cyngor Eglwysi Deiniolen a Dinorwig ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r apêl eleni. Diolch arbennig i'r casglyddion fu o gwmpas y ddau bentref. Casglwyd y swm o £685.

Daeth yr wythnos i ben fore Sul, 18 Mai gyda gwasanaeth arbennig yng Nghapel Ebeneser dan arweiniad y Parchg John Pritchard. Cafwyd casgliad o £20 ychwanegol i'r apêl.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol nos Lun, 16 Mehefin a chafwyd cynulliad da. Cytunodd y swyddogion i barhau yn eu swyddi am flwyddyn arall. Cyflwynwyd rhodd fechan i'r ysgrifenyddes, Iona Richards, fel gwerthfawrogiad o'i gwaith arbennig ar hyd y tymor. Trefnwyd rhaglen lawn ar gyfer y tymor 2003-04 a chynhelir y cyfarfod cyntaf ar 22 Medi yn Tŷ Elidir. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

DYMUNA Kevin ac Anwen, Gwelfynydd, Clwt-y-bont ddiolch o galon i bawb am y galwadau ffôn, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Catrin tra bu yn ysbyty Alder Hey yn ddiweddar, ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Elinor a theulu y diweddar R.O. Williams (Bobbie) 41 Rhydfadog fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl.

Diolch i'r Canon Idris Thomas ac i Dylan Griffiths am drefniadau parchus a thrylwyr.

PRIODAS. Ar ddydd Sadwrn, 24 Mai 2003 priodwyd Elin Iolen a Hedd Rhys yng Nghapel Peniel, Waun Pentir, Rhiwlas.

Dymunwn yn dda i'r ddau yn eu bywyd priodasol ac yn eu cartref newydd, 2 Tai Gerddi.

DYMUNA Dilys Williams, 61 Pentre Helen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

CYMDEITHAS ACTION AID. Bob blwyddyn mae plant Ysgol Sul Unedig Deiniolen ac Ysgol Sul Unedig Bosra, Penisarwaun yn dod ynghyd i gynnal gweithgaredd noddedig i godi arian i Gymdeithas Action Aid, tuag at helpu cymunedau tlawd yn Kenya. Anfonnir y swm o £180 bob mis Hydref.

Yn ystod y gwanwyn eleni daeth y Gymdeithas a stori drist iawn i'n sylw am ferch fach o'r enw Marie Claire o wlad Rwanda yn Affrica. Bum mlynedd yn ôl, pan oedd hi'n 7 oed, cafodd y profiad erchyll o weld ei rhieni a'i dau frawd yn cael eu lladd. Ers hynny, hi sydd wedi gofalu am ei dwy chwaer iau. Gan fod gennym arian wrth gefn penderfynwyd anfon £100 i Gymdeithas Action Aid i gynnal y tair chwaer fach amddifad.

CYDYMEIMLO. Trist iawn oedd clywed am farwolaeth cymeriad annwyl a phoblogaidd iawn o'r pentref, Tydfil Jones. Bydd colled ar ei ôl i'w gyfeillion a'i gymdogion yn Rhydfadog. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Ken a Margaret a'u teuluoedd ac â ffrind annwyl iddo, Glenys Roberts.

CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DIOLCH. Dymuna Ceinwen William, Cambrian Terrace ddiolch yn fawr iawn i'w pherthnasau a'i chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a gafodd ar ei phen-blwydd a'i hymddeoliad yn ddiweddar.

I GOFIO PEN-BLWYDD MAM – Hetty Hughes, 7 Stryd Siarlot

Mis Gorffennaf a'i atgofion
Dorrodd dant ein telyn ni;
Un â'i gofal dros ei thylwyth,
Cofiwn byth ei chariad hi.

Hiraeth amdanoch, mam – Elizabeth, Griff ac Eluned.

DIOLCH. Dymuna John H. Hughes, Tan y Clogwyn, ddatgan ei werthfawrogiad diffuantaf am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac yn ei gartref yn ystod ei waeledd. Diolch o galon i'w lu cyfeillion am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion.

HELFA DRYSOR. Bydd Helfa Drysor yn cael ei chynnal nos Fercher, 9 Gorffennaf am oddeutu 6.30 o'r gloch, i gychwyn o Faes Parcio Glan Llyn (ger y maes chwarae). Pris car fydd £5.00.

Bydd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y daith a bydd yr elw at adnoddau Capel Coch, Llanberis a hefyd 'Tear Fund'.

Dewch yn llu, oedolion a phlant i fwynhau noson o hwyl a sbri.

Ffoniwch y ddwy 'Ddilys' ar (01286) 871758 neu 872516 i ymaelodi ac i gael manylion pellach.

UNDEB Y MAMAU. Pnawn dydd Mawrth, 3 Mehefin, cynhaliwyd ein cyfarfod misol yn Festri Eglwys Sant Padarn. Ein Curad, y Barchedig Vittoria Hancock, arweiniodd ni yn y gweddïau.

Ein gwraig wâdd oedd Dr Cassie Meurig o Gwm-y-glo a chafwyd amser hynod o ddifyr yn ei chwmni. Cawsom hanes diddorol iawn yr offeryn crwth, ac roedd y chwarae proffesiynol mor swynol. Hwn oedd y cyfarfod olaf i'n Rheithor, y Parchedig Philip Hughes fod yn ein cwmni cyn iddo symud i'w blwyf newydd yn Llanfairpwll ac, ar ran yr aelodau, cyflwynodd Mrs Betty Humphreys Feibl (y fersiwn diweddaraf) iddo a basged o flodau i Sandra, gan ddiolch i'r ddau am eu caredigrwydd dros y blynyddoedd.

Mrs Kathleen Williams a Miss Glenys Parry oedd yn gwneud y baned a diolchwyd iddynt, a hefyd i Cassie gan Mrs Nan Owen gyda Mrs Nellie Morris yn eilio. Mrs Audrey Evans oedd enillydd y raffl. Daeth y cyfarfod i ben drwy adrodd y Gras.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £412.62 yn Llanberis gan Nia Thomas (Hairlines), Cath Pritchard, Nellie Morris, Helen Parry, Dilys Roberts, Jean Roberts a Margaret Prydderch. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

DIOLCH: Dymuna Daniel Orritt, 7 Blaen Y Ddôl, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, arian ac anrhegion a gafodd ar ei ben-blwydd yn 7 oed. Diolch yn fawr i bawb.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT

website: www.a-v-w.co.uk

Shell HELIX

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559

BOSCH SERVICE

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

cyngor ar bopeth

Rydym angen

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

DANNEDD CATH

Pethau rhyfedd ydy' cathod, ond mae eu dannedd yn rhyfeddach fyth! Mi fyddech yn rhyw feddwl wrth edrych ar y giaman, ddeuddeg mlwydd oed, bod agor ei cheg a dangos ei dannedd yn dasg gymharol rhwydd iddi! Ie ynte! Mor ddiniwed rhywfodd yr edrych yn gorweddian ar ei hyd. Ond mae hithau'n gallu bod yn wyllt, gan ddangos grym ei dannedd. Yn fy marn i nid oes y fath beth â chath ddof. Yn y bôn, perthyn i'r gwyllt wna pob un ohonynt!

Bydd nacw'n chwyrnu'n isel fel ci, yn hisian fel neidr, gan roddi hen ddigon o rybudd ei bod yn anniddig ei byd, yn enwedig os y gwneir digwydd gyffwrdd ei chynffon trilliw. Os na wnewch adael llonydd iddi, try'n eithaf blin a rhydd gripiad ffiaidd i'r person sy'n ei thrin! Hyn i gyd, am wn i, er mwyn cael llonydd. Yn bendifaddau amddifyn ei hunan a wna.

Aethom â hi i'r filfeddygfa ddiwedd mis Ebrill eleni, a hynny gyda'r amcan teg o holi sut y gellid cael gwared o'r tartar ar ei dannedd. Y noson yr aed a hi yno bu'n rhaid imi ei hwffio fesul tipyn, gerfydd ei phen ôl, i'r blwch cludo cathod. Y cyfan er mwyn ei dannedd!

Dannedd? Mae cath gyflawn o ddannedd ac sy'n oedolyn, hefo un ar bymtheg dant yn nhaflod uchaf ei cheg, a phedwar ar ddeg dant yn y rhan isaf. Defnyddia ei hysgithrddannedd er mwyn trywanu'i hysglyfaeth. Hefo'i childdannedd y bydd hi'n malurio eig.

Achosir dartar gan boer, tamcidiau bwyd, a bacteria, sy'n casglu ar yr enamel a berthyn i ddannedd. Bydd tartar, yn ei dro, yn effeithio ar y fantach gan achosi llid a'r cyflwr a elwir gingifitis. Maes o law mae'r dannedd yn llacio, a rhyddhau. Gall hyd yn oed ddiffyg dannedd arwyncbol-wastad amddifadu'r gath o'r gallu i faluria'i bwyd. Perefeddyn bychan sydd gan gath ac y mae'i stumog yn cynhyrchu hylifau treulio bwydydd. Mae hi hefyd yn bwyta gwair, a phlanhigion eraill yn achlysurol, ynghyd â llysiau, sy'n ei chynorthwyo i gael gwared o'r pilenni blew sy'n ei stumog. Y mae'n bwysig fod cath dros ei blwydd oed yn cael amrywiaeth cyd-bwysol o fwyd. Mae bwydlen sy'n isel ran protin ac yn ddiffygiol ran taurine yn achosi problemau iechydol dirif i'r anifail, e.e. mi all golli ei golwg a chael trafferthion enbyd hefo'i chalon.

Dannedd? Wedi dychwelyd adref hefo Tanwen, a'i dannedd yn glaear wynion wedi'r holl lanhau a pholishio fu arnynt, a phum dant drwg wedi eu tynnu.

Roedd yn rhaid inni ofalu bob nos ei bod yn llyncu ddwy dabled – rhai cochion ran eu lliwiau. Doedd y tabledi heb fod yn rhai mawr o gwbwl! Cofiaf y noson gyntaf. Yn ofalus agorais ei cheg ac unwaith roedd y tabledi o'r golwg dyma gau'i safnau'n dynn, gan fynd ati hefo cefn bysedd y law arall i rwbio'n gyflym oddi tan wynder ei gên.

Uffach Dafydd, pwdin reis! mi boerodd y tabledi o'm blaen! Roeddynt wedi troi eu lliw hefyd! Ail-ymgymerwyd â'r dasg o weinyddu'r tabledi gwlybion, gan ddilyn yr un broses ac o'r blaen! Llwyddiant diamheuol meddyliais! Mae hi wedi cymryd at y tabledi. Dyna a feddyliwn! Drannoeth, ar y llawr tra'n llithro o gwmpas hefo'r peiriant sugno llwch beth a welwn ond gwynder dwy dabled! Roedd y bygyr fach wedi eu cuddio yn nhu ôl ei cheg ac wedi eu poeri allan! Felly, mi roedd yn ofynnol ymorol am gynllun arall! Y noson honno taenwyd marjarîn oddeutu pob tabled! Weithiodd o? Naddo! Drannoeth, roedd y tabledi ar y mat! Y drydedd noson, gwasgwyd yn hirach ar safnau'r gath. Mi ysgyrnygodd fel dwn i ddim be', â'i chynffon yn chwipio'r gadair. Roedd golwg ddicllon yn ei llyg'id! Canmolwyd hi i'r entyrchion! A hynny'n gwbwl ofer! Dyna'r tabledi yn sboncian o'i cheg! Finnau'n eu hwff'o'n eu holau! Yna, mi wylltiodd meinaps, a rhoi y ffasiwn gripiad imi ar fys canol fy llaw chwith. Bu'n rhaid gadael llonydd iddi, a chwilio am eli anti-septig rhag ofn i'r bacteria, sy'n llechu ar ddannedd cath, dreiddio ymhellach i'm gwaed, a chreu ychwaneg o lanastr.

Mae'n reddfol bod anifail yn amddiffyn ei hunan, hyd yn oed os yw bod dynol yn ceisio gweinyddu ff'sigwriaeth llesol iddo. Tanwen? A wnes i ddigio wrthi? Naddo! Dim ond cath ydy' hi, a rhaid ei hystyried fel hynny. Mae'n wir na fu iddi ganu grwndi am dri diwrnod soled wedi hynny, ond mi gefais faddeuant ganddi! Gresyn na fyddai ffyrmiau sy'n darparu ff'sigwriaeth anifeiliaid yn llunio tabledi hefo blas hoff fwydydd yr anifeiliaid amynt. Byddai hynny'n haws na straffaglo a thyngu llwon, tra'n ceisio agor safnau cath fel Tanwen, a hynny er mwyn gollwng tabledi i lawr ei lôn goch!

LLANDDEINIOLEN

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £83.67 yn Llanddeiniolen a Seion gan Glenys a Jenkin Griffiths. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

DRAENOG

Cadeirydd Pwyllgor LLYWio?

Newydd glywed gan fy nhgyd-Ddraenog o'r Waunfawr i Gadeirydd Pwyllgor Llywio Eco'r Wyddfa fagio'i gar newydd sbon danlli i mewn i sgip oedd wedi ei gosod yng nghowt tŷ ci ferch a'i fab yng nghyfraith. Da gallu cyhoeddi fod y sgip yn iawn ond yn anffodus gadawyd tolc go hegar ar fwt car y Cadeirydd!

Onid ef, dudwch, gyfansoddodd y gân enwog honno, 'Hen Bentra Bach LLANBLER'?

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

PROFEDIGAETH. Yr ydym fel ardal yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf i Mr Roland Williams, 6 Bro Elidir yn ei brofedigaeth lem o golli ei dad, Mr Bobbie Williams, Rhydfadog, Deiniolen. Boed iddo gael nerth oddi uchod yn ystod ei brofedigaeth.

Trist iawn oedd clywed y newydd yn ddiweddar am farwolaeth Betty Rees Rourke (Edwards gynt). Magwyd Betty yn ieuengaf o dair chwaer ym Mron Eilian, Dinorwig. Cafwyd cyfraniadau ganddi i'r Eco o dro i dro. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys iawn ag Enid Rees a Joan, ei chwiorydd, a'u teuluoedd yn eu colled a'u galar.

Yn ystod yr wythnos daeth newydd trist arall i'r ardal. Bu i Mrs Maggie Hughes (Jones gynt), Tregarth, a gafodd ei magu yn Pant, golli ei mab, Bryn ar ôl gwaeledd hir. Mae ein cydymdeimlad yn fawr hefo hi a Gwynfor, ei gŵr, hefyd Nia, ei chwaer a Mervyn ei frawd, ac hefo'r teuluoedd sydd yn dal i fyw yn yr ardal.

DIOLCH. Mae Gwyn Walker Caerdydd (ŵyr i Andrew ac Alice Griffith, Tan y Bwlch) yn dymuno diolch yn fawr i'w deulu a'i ffrindiau o fro'r Eco am eu dymuniadau da a'r rhoddion a gafodd ar achlysur ei briodas â Christine yng Nghaerdydd ar y Sadwrn olaf o Fai.

CLWB ORWIG. Yn y cyfarfod o'r clwb ar 15 Mai croesawyd aelodau o dîm cynhyrchu HTV a ddigwyddai fod yn ffilmio yn yr ardal ar gyfer y rhaglen 'Walking in Wales with Fishlock'. Dangosent ddiddordeb yn y cynlluniau a gyflwynwyd i'r aelodau gan Gwilym Williams o Grefftau Eryri, Llanberis ar gyfer y gofeb o goffau'r cyn chwarelwyr.

Diolchwyd i'r tîm a gymerodd ran yng Nghwis Age Concern ac am y llwyddiant a ddaeth i'w rhan. Diolchwyd i Dennis a Joan Glass am ddarparu'r te. Enillwyd y raffl gan Betty Ann Jones a John Brenna.

Yn y cyfarfod ar 29 Mai bu'r aelodau yn datrys amrywiol bosau a luniwyd gan Betty Bower. Diolchwyd gan Ray Bower i'r aelodau am eu cefnogaeth i ymdrech y clwb i gasglu arian at Nyrsus Macmillan. Llwyddwyd i godi £200. Diolchwyd i Reolwyr Amgueddfa Drydan Dinorwig am ganiatau i ni ddefnyddio eu safle i wneud y casgliad. Trafodwyd y gost o godi'r gofeb i'r chwarelwyr.

Diolchwyd i Betty Roberts, Katie Hughes a Betty Lloyd Roberts am y te. Enillwyr y raffl oedd Margaret Faulkener, Betty Ll. Roberts, Nelliw W. Jones a Betty Bower.

COFIO IWAN. Er cof annwyl iawn am Fab Annwyl a hunodd mor ddisymwth ar 21 Mehefin 2002. Er i flwyddyn fynd heibio yr ydym yn dy golli bob dydd â hiraeth diddiwedd. Hiraethwn yn dawel gyda thrysor o atgofion melys. Yn wastad yn ein meddyliau a bythol yn ein calonnau. Mam a Dad, Brodyr a'r teulu oll.

Un Funud fach

★!!★★ !★!★

Tri gair yn unig ddeudodd y gŵr ifanc. 'Pregethwr' oedd y trydydd gair, ond wna i ddim mentro sgwennu'r ddau air cyntaf yn yr Eco. Yn Saesneg yr oedd o'n rhegi, ac mi gewch chi ddyfalu – os oes raid – pa eiriau'n union a ddefnyddiwyd ganddo. Wna'i ddim merwino'ch clustiau wrth eu sgwennu yn eich clyw.

Nos Wener dwytha oedd hi, a'r cwbl wnes i oedd mynd i'r drws ffrynt. Wedi clywed rhyw gomosiwn oeddwn, a meddwl yn siŵr bod yna rhywbeth go fawr yn digwydd y tu allan i'r tŷ. Ond, erbyn i mi gyrraedd y drws, doedd neb i'w weld ond y cyfaill mwyn hwn yn gwibio heibio'n serchog.

Does gen i ddim syniad pwy oedd o. A dwn i ddim be wnes i'w ypsetio. Go brin ei fod o'n un o ddarllenwyr selog y golofn hon. Ond wyddoch chi ddim chwaith, ac felly mi fentraf ddiolch iddo am ei gyfarchiad. Nid fy mod i, mwy na'r un ohonoch, yn hoff iawn o gael fy rhegi, cofiwch.

Eisiau diolch iddo ydw i am iddo feddwl amdanaf fel 'pregethwr'. Dwn i ddim faint o grebwyll oedd ganddo o beth yn union yw pregethwr. Mae'n siŵr bod yna bobl llawer mwy cymwys na fo i fynegi barn ar sut fath o bregethwr ydw i. Mi fentraf ddeud na welodd hwn erioed fawredd yr Iesu yr wyf yn bregethwr iddo na phrydferthwch yr Efengyl yr wyf yn pregethu amdani. Ac rwy'n ddigon parod i dderbyn bod o bosib fwy o fai am hynny arnaf fi, a phregethwyr eraill, nag arno fo.

Ond roedd rhyw gysur rhyfedd i'w gael o sylweddoli bod o leiaf un creadur, wrth fynnu – yn ei ddiod mae'n debyg – fy rhegi, yn sicr yn ei feddwl ei hun mai 'pregethwr' oeddwn i. Wedi meddwl am y peth, ella bod 'pregethwr' hefyd yn air hyll iddo fo; yr un mor hyll â'r ddau air arall a ddefnyddiodd! Ond pwy ŵyr na ddaw cyfle ryw ddiwrnod i egluro iddo pam a phwy yr wyf fi, a miloedd tebyg i mi, yn ei bregethu? Byddai ei gyfarchiad tipyn gwahanol o gael y cip lleiaf un ar yr Arglwydd Iesu Grist.

A minnau, byddwn yn fwy na bodlon petai pawb yn meddwl amdanaf fel pregethwr da a ffyddlon i'm Gwaredwr, Iesu.

JOHN PRITCHARD

Newyddion Ysgol Dolbadarn

Cynhaliwyd Gala Nofio yr ysgol yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon ar Fai 16 gyda holl blant yr adran iau yn cymryd rhan. Ar ôl 30 o rasus Tîm Padarn a enillodd y darian am y marciau uchaf. Tomos Owen a Janie Lampard oedd yr unigolion gyda mwyaf o bwyntiau a Derw Fineron, Edith Williams a Hannah Hellfeld yn ail iddynt.

Yn Ngala Nofio cylch Caernarfon i ysgolion cynradd daeth yr ysgol yn bedwerydd. Llongyfarchiadau i bawb.

Erbyn hyn mae Mrs Meirwen Williams wedi ein gadael i ddysgu yn Ysgol Gynradd Nefyn a chyflwynwyd anrheg iddi fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth arbennig i'r ysgol. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd. Dychwelodd Mrs Iona Ceiriog a Miss Angela Willis ar ôl eu absenoldebau mamolaeth ac estynnwn groeso cynnes yn ôl atom.

Bu Mr Ken Jones yn sgwrsio gyda plant Bl 1 a 2 am y newid fu'n Llanberis dros y blynyddoedd, cawsant amser da a bu hen holi arno. Diolch iddo am ei amser. Aeth, hefyd, â phlant Bl 3 a 4 ar daith gerdded lleol.

Bu'r heddwas Bevan yn rhoi cwrs beicio i blant Blwyddyn 6.

Ymwelodd Swyddog Tân i roi sgwrs ar Ddiogelwch hefo tân i Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 4.

Bu plant Blwyddyn 5 a 6 ar drip preswyl 3 diwrnod i Gaerdydd gan fwynhau yn fawr iawn, gweld llawer a byhafio'n dda! Diolch i aelodau'r staff a aeth efo nhw.

Bydd cyfle i'r plant newydd ymweld â'r ysgol ar fore 2il o Orffennaf a chynhelir noson agored ar Orffennaf 8ed.

Bydd mam Natasha a Claire yn cymryd rhan yn y *'Flora Light Challenge'* ym mis Medi a thad Gwenan yn rhedeg Ras Yr Wyddfa i godi arian i'r ysgol. Gwerthfawrogwn gymorth efo casglu noddwyr.

Cynhelir nifer o dripiau i'r plant cyn yr haf a cheir gwybodaeth amdanynt o'r ysgol.

Pob hwyl i'r plant, staff a'r rhieni dros wyliau'r haf. Bydd yr ysgol yn ail agor dydd Mawrth, 2il Fedi 2003.

Taith Caerdydd 2003

Dydd Mercher, Mehefin 11 fed

O na! codais 6:00 heddiw. Y cloc larwm adre (mam!). Ar ôl newid a brecwast cerddais i'r tŷ doctor i gyfarfod gweddill y criw (pawb yn hanner cysgu!). Dacth y bws o'r diwedd HWRE!! ac i fwrdd â ni!

Rocdd y daith yno mor hir â malwoden yn cerdded yn ei chwsg!! Ond yn hwyl!! Rhai plant yn cysgu, rhai yn chwarae gemau. Siarad am gysgu oeddis i lun o Mr Wynne yn cysgu! A dwi ddim eisiau dweud beth wnes i ddal Miss Owens yn wneud!

Ar ôl cyrraedd aethom i Dan yr Ogof ac ew roedd hi'n oer! Roedd pawb yn gorfod gwylio eu pennau gyda'r holl stalagmidau yn dod o'r to! (neu ysbyty amdani!) Ond roedd yna un ogof bach (wel un fawr) oedd yn rhamantus iawn gyda ffynhonnau dŵr ymhob man a chornel bach i briodi ynddi! (gwirion braidd a hithau yn dywyll a budur yno) ond o wel!

Yn syth wedyn aethom ar y road tren a 'sa chi'n gweld y tren! Balwniau o pob math a baneri o bob math a hyd yn oed smotiau pob lliw ar ei ddrysau ond, unwaith aethom o amgylch y bae, meddyliais 'Tydi hyn ddim mor ddrwg.' I dweud y gwir mwynheais yn fawr iawn!

Tua 6:00 aethom ni yn ôl i'r gwesty a cawsom swper andros o flasus (ond dim andros o ddistaw !) Wedyn aethom i'r cae drws nesaf i chwarae rownderi a cawsom ni andros o hwyl! A dyfalwch faint or gloch aethom adref?... 11: 00 wel buasai Mam yn gandryll!

Wel nos da! ond nid i'r athrawon!

Dydd Iau Mehefin 12

Cododd pawb tua 7: 00 (mawr yw'r syndod!) ac aethom am frecwast . Ew roedd y brecwast yn flasus! Brecwast llawn! a gwydrad o sudd afal MMMmmmmm

Ar ôl brecwast aethom yn ôl ar y bws ac i Sain Ffagan. Yn Sain Ffagan mae yna wahanol adeiladau o wahanol gyfnodau yn y ganrif ddiwethaf (llond ceg). Ac roedd o (fel mae'r hogiau yn ddweud) yn SMART! Yn yr amgueddfa yr oedd yna bentref Celtaidd gyda dyn yn siarad am yr oes. Siopau hen ffasiwn lle roeddych yn medru PRYNU pethau hen ffasiwn a... disgwyliwch... TY'R DYFODOL!!! gyda gwair ar y to a lifft!! Wel ar y pryd meddyliais 'fyddwn i yn ddigon cyfoethog i prynu y tŷ yma.

Wel y noson (ac oes mae yna fwy!) Aeth yr athrawon â ni i weld y film Johny English (Mr Bean). Y mwyaf digri welais erioed. Roedd Rowan Atkinson mor ddigri. O mi gawsom ni hwyl!

Aeth pawb i gysgu reit fuan y noson hono (mawr yw'r syndod eto) ac yr athrawon yn cael cysgu hefyd!!

Dwi WEDI blino Nos da!

Dydd Gwener mehefin 13

Helo o dwi'n drist heddiw gan mai'r diwrnod olaf yng Nghaerdydd yw hi!! Ond oedd rhaid bod yn hapus roedd yna llawer o lefydd i ymweld â nhw!!!!

Yn gyntaf acthom i weld y Cynulliad ac roeddwn wrth fy modd yn dysgu mwy am yr aelodau ac am bleidleisio hefyd. Cawsom ddal etholiad ffug ac fy mhlaid i (plaid gwisg ysgol) a wnaeth ennill! (HWRE) Ar ôl y Cynulliad aethom i Techniquest (fy ffefryn!) lle roedd yna wahanol arddangosfeydd i'w gweld. Roedd pawb yn mwynhau y lle hudol (llawer mwy nac ysgol!!) Buaswn i yn medru aros yno am byth ond roedd hi'n amser mynd yn ôl !! (BW HW!!)

Ar y ffordd adref roedd pawb wedi blino. Cysgais i am awr! Ond am yr 4 awr arall... fel yr arfer gwrando ar gerddoriaeth a chwarae gemau!

Y noson hono wnes i ddim cysgu, diflasu mam a dad gyda straeon non stop!

Ella ai i gysgu am ychydig. Nos da!

Angharad Ann Morris!
Ysgol Dolbadarn

Jones & Whitehead Cyf.
Contractwyr Trydan
Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân
Gwasanaeth i
Gymru Gyfan
Aelod o
NICEIC
Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol
Prif swyddfa
Penrala, Tregarth, Gwynedd
Ffôn: 01248 601257
Ffôn (nos):
01248 600477 a 601011
Ffacs: 01248 601982

GORSAF BETROL
ESSO BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Ysgol Brynrefail

Nadolig Llawen i Blant Chernobyl

Mae gwir ysbryd y Nadolig yn fyw ac yn iach yn ardal yr Eco, diolch i garedigrwydd Terry a Menna McDaid o Lloches, Waunfawr, a'u cyd aelodau mewn elusen o'r enw *Chernobyl Children's Lifeline*.

Ar 15 Rhagfyr, cyrhaeddodd pedwar o blant yr holl ffordd o bentref Lippen ym Melarŵs i fwynhau mis o wyliau gyda theuluoedd yn Y Waunfawr, Pontllyfni a Llanllyfni.

Mae un plentyn yn 15 oed, un yn 9 a dau yn 8 oed. Cânt fwynhau pleserau y tueddwn ni i'w cymryd yn ganiataol, yn rhydd o galedi eu bywyd bob dydd am ryw hyd.

Anrheithiwyd ardal enedigol y plant gan drychineb niwclear Chernobyl gan orfodi yr holl drigolion i symud tua 200 milltir o'r Iwcraen i'w hardal bresennol.

Cafwyd problemau iechyd difrifol yn sgil y ddamwain, ac mae ffurfiau ar ganser bellach yn gyffredin iawn ymhlith plant ac oedolion.

Nod yr elusen *Chernobyl Children's Lifeline* yw cynnig gwyliau ym Mhrydain i cyn gymaint â phosibl o'r plant a orfodwyd i ddianc i Belarŵs. Yng Ngwynedd cododd Terry, Menna a'u cyfeillion dros £4,500 tuag at y gwaith o dalu am gostau hedfan.

Bu Terry'n gweithio ers 20 mlynedd fel Rheolwr Cynnal a Chadw ym Mharc Gwyliau Glangwna, Caeathro. Yno y codwyd llawer o'r arian mewn gweithgareddau fel ocsiwn a rasus pramiau.

Meddai, 'Hoffwn ddiolch i lu o fusnesau lleol a gyflwynodd roddion i'w rafflo, ac i sefydliadau fel y Frigâd Dân a Chôr Meibion Caernarfon a drefnodd gasgliadau ymhlith eu haelodau.'

Os dymunwch helpu *Chernobyl Children's Lifeline* mewn unrhyw fodd y Nadolig hwn, cysylltwch â Terry neu Menna ar (01286) 650169 i glywed mwy am eu gwaith rhagorol.

Mabolgampau Cenedlaethol Cymru

Braf gweld bod traddodiad yr ysgol yn parhau pan fydd tri disgybl yn cystadlu ar y lefel uchaf ar 5 Gorffennaf yng Nghaerdydd.

Dymuniadau gorau i Joseph Simpson, bl.10 (picell); Sion Roberts, bl.9 (pwysau) ac Alaw Ceris, bl.10 (naid polyn).

Gobeithio am fedal aur i'r tri ohonoch.

Mis yn Bolifia

Tra bu'r mwyafrif o fyfyrwyr Blwyddyn 13 yr Ysgol yn chwysu am eu canlyniadau bydd Ceri Mill a Karen Leadbitter, dwy fyfyrwraig Chweched Brynrefail allan yn Bolivia ar alldaith gyda Chwmni Camre Cynru.

Cwmni sydd wedi ei sefydlu i gynnig profiadau anturus i bobl ifanc ydyw Camre Cymru. Yn y parti bydd dwsin o'r ardal. Yn ogystal â Ceri a Karen bydd Samantha Pritchard, a oedd yn ddisgybl yn yr Ysgol y llynedd, hefyd.

Allan yn Bolivia bydd y criw yn blasu pob math o brofiadau, gan gynnwys ymweld â thraeth Copacabana, gwaith mwyngloddio Potosi, Gwastadedd halen a Pharc Cenedlaethol. Rhan bwysig o'r fenter fydd gweithio gyda'r cymunedau y maent yn ymweld â hwy.

Fel rhan o'r prosiect bu'r merched yn trefnu gweithgareddau i godi'r arian i fynd.

Pob lwc i'r criw ac efallai y cawn ychydig o'u hanesion ar ôl iddynt ddychwelyd.

Karen Leadbitter a Ceri Mill sydd yn mynd i dreulio mis Awst yn Bolivia.

Mabolgampau'r Ysgol

Diwrnod bendigedig a phawb yn cystadlu'n frwd. Tipyn o gystadlu o'r pedwar tŷ ond, eleni eto, daeth Gwyrfai i'r brig, Eilian yn ail, Eryri'n drydydd ac Elidir yn bedwerydd. Roedd Gwyrfai ymhell ar y blaen o 50 marc ond y tri tŷ arall yn agos iawn i'w gilydd.

Aeth y Victrix Ludorum i Rhiannon Jones, bl.10 gyda 35 o farciau a'r Victor Ludorum yn cael ei rhannu gan Dylan Eddy, bl.9 a Gareth Jones, bl.10. Y ddau wedi cael 40 o farciau, y cyfanswm uchaf posib.

Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch.

Gwobrwywyd y canlynol am farciau gorau'r flwyddyn:
bl.7: Amy Owen, (Elidir);
Iwan Arwel, (Eilian);
Alex Lynes, (Elidir).
bl.8: Katy Williams (Gwyrfai);
Sion Owen (Gwyrfai).
bl.9: Sarah Woodcock (Gwyrfai); Dylan Eddy (Elidir).
bl.10: Rhiannon Jones (Elidir); Gareth Jones (Eilian).



Dafydd Meredydd yn wên o glust i glust ar ôl ennill y naid uchel.

Da iawn chi, mae'n braf gweld y traddodiad yn dal yn gryf a'r cystadlu'n iach yn Ysgol Brynrefs.

Mr Dylan Huw Jones a Mrs Catrin W. Jones yn craffu ar y naid hir.

Pêl-droed 7-bob-ochr

Cynhaliwyd y noson ar Fai y cyntaf a mawr oedd yr hwyl a'r brwdfrydedd.

Cafwyd noson fendigedig dan ofal Cyfeillion Ysgol Brynrefail a braf oedd gweld cymaint wedi troi allan i gefnogi ac i ymuno yn yr hwyl.

Diolch o galon i bawb a ddaeth a gobeithio y cawn eich gweld eto y flwyddyn nesaf.

Rhwng y Raffl Fai a'r pêl-droed fe wnaed elw o £700 i'r ysgol. Swm anrhydeddus iawn. Diolch i bawb am eich cefnogaeth i wneud y noson yn llwyddiant.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r criw fu draw yn Eisteddfod yr Urdd Tawe, Nedd ac Afan. Clywed eich bod wedi mwynhau eich hunain yn fawr!

Dyma'r rhai a ddaeth i'r brig:
Ffion Owen: Ail am Siarad Cyhoeddus dan 19;
Rhys Wyn Hughes: Ail yr yr Unawd Pres o 15–19 oed.

Da iawn chi, daliwch ati!

Mabolgampau NAS/UWT

Cystadleuaeth timau rhwng ysgolion uwchradd Arfon a bechgyn bl.9 a bl.8 Ysgol Brynrefail yn ennill. Felly byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli cylch Arfon ym Mangor ar 26 Mehefin. Pob lwc i chi hogia.

Clwb Cant Cyfeillion yr Ysgol

Mis Ebrill:
£38.50: Maureen Williams, Ffarm Bryn Llan, Llanrug; £23.10: Moira Tate, 7 Fron Goch, Llanberis; £15.40: Sheila Foulkes, Tyddyn Gwndwn, Bethel.

Mis Mai:
£38.50: Fiona E. Jones, Bryn Tirion, Bethel; £23.20: P.A. Williams, Cilgwyn, Bethel; £15.40: Sonia Bee, Afonwy, Pontrug.

Mis Mehefin
£38.50: R.A. & E.J. Wallis; £23.10: Kim Lowther, 20 Nant y Glyn, Llanrug; £15.40: Ffion Glyn Roberts, Erw Gain, Llanrug.

Gareth Jones yn cael sbel wedi ennill ei ras.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £474.54 yn Llanrug gan aelodau o Ferched y Wawr. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

DYMUNA Nan Jones, Myfanwy a'r teulu, Perthi, Ffordd yr Orsaf ddiolch o galon am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a gawsant o golli Gwilym. Hefyd am y llu cardiau, galwadau ffôn, blodau ac arian. Diolch i'r Parch D. Ll. Hughes a'r Parch John Pritchard am eu teyrnged a hefyd i Gwynfor Jones a Myrddin Pritchard, Llanberis am y trefniadau urddasol. Bydd y swm o £370 yn cael ei drosglwyddo i Feddygfa Waunfawr a Llanrug.

DYMUNA Robin Whiteside Thomas, Glanffrwd, Pontrhythallt, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion ac ymweliadau a dderbyniodd tra'n aros yn Ysbyty Gwynedd dros y mis diwethaf yn dilyn torri asgwrn ei forddwyd. (Mam a Dad sy'n diolch ar ei ran!).

BRISBANE, AWSTRALIA. Wrth aros ym Mrisbane ar gyfer Gŵyl Rygbi Hogia'r Hen Oes Aur, daeth Clive James, Caeathro (aelod o dîm y Gogs, Caernarfon) ar draws teulu o'r fro. Mae Angela (Owen gynt) o Lanrug a Gareth Jones o Geunant wedi mudo i dalaith yr haul. Mae'r plant, Iwan a Dewi, yn mwynhau gwrando ar Nain ar Radio Cymru trwy'r we.

CYMORTH CRISTNOGOL. Y swm a gasglwyd yn y pentref eleni oedd £1,284 (heb gyfrif yr Addaliad Treth Incwm). Diolch yn fawr am eich haelioni ac i'r rhai fu'n casglu ac yn cyfrif yr arian a'i bacio.

BRYSIWCH WELLA. Cafodd Robin Whiteside Thomas ddamwain yn ddiweddar sy'n golygu ei fod yn aros am wythnosau yn Ysbyty Gwynedd yn aros i'w goes wella. Cofion gorau atat Robin a gobeithio y cei ddod adref yn fuan.

Dymuniadau gorau i Mrs Joyce Jones, 7 Bryn Moelyn sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Croeso adref o'r Ysbyty i Elain, merch Sharon ac Eurwyn Morgan, Dolwen, yn dilyn llawdriniaeth fawr ar ei chalon. Rydym yn deall ei bod yn gwella yn dda. Pob dymuniad da iddi.

Hefyd, mae Mrs Catherine Griffith, 22 Hafan Elan yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain a llawdriniaeth; John wedi dod adref a Mrs V. Jones, Parc yn gwella. Cofion gorau at bawb.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Joyce Jones, 7 Bryn Moelyn ddiolch i'w theulu, cymdogion a'r holl ffrindiau a fu'n gefn iddi ar ôl ei thriniaeth yn ddiweddar. Diolch am yr ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau, blodau a'r danteithion a gafodd. Diolch arbennig i'r meddygon a'r gweinyddesau ymroddgar fu'n edrych ar ei hôl yn Ysbyty Gwynedd.

Fe ddymuna Cledwyn Jones, 56 Glanffynnon ddiolch yn ddiffuant i'r teulu a ffrindiau yn Llanrug a Llanberis a'r cylch am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dychwelyd gartref.

Dymuna Llinos, Neil a Deio ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a gawsant ar achlysur genedigaeth yr efeilliaid, Iolo ac Enlli.

MARWOLAETHAU. Ar 26 Mai bu farw Miss Olwen Price, Hafan Elan gynt, yng Nghartref Plas y Bryn, Bontnewydd. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei chwaer, Eirlys a'r teulu oll.

Ar yr un diwrnod bu farw Mr Gwilym Ellis Jones, Perthi, Ffordd yr Orsaf yn sydyn yn ei gartref. Cofiwn yn arw at ei wraig, Nan, Myfanwy, Medwyn a'r plant, ei chwaer a'r teulu oll.

Ar 7 Mehefin, yn dilyn gwaeledd hir, bu farw Mr Alwyn Williams (Barbar fel yr adwaenid ef gan yr ardalwyr). Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Jean, ei wraig, Pat, Vera, Keith, Elaine a'u teuluoedd i gyd.

Bu farw Mr Robin Parry, Hafan Elan yn sydyn iawn ddydd Llun, 16 Mehefin. Cydymdeimlwn yn llwyr â'r teulu i gyd.

Hefyd â theulu Mrs Ivy Hanson, 8 Bryn Moelyn a fu farw yn ddiweddar.

YR YSGOL GYNRADD

Cafodd plant y Dosbarth Meithrin dywydd braf ac amser arbennig o dda ar eu trip i Fferm Henlas ar Ynys Môn, lle cawsant fwydo'r ŵyn bach, gwylio dafad yn cael ei chneifio a thrip o amgylch y fferm yn y trelar a thractor yn eu tynnu. Daethant yn ôl wedi gweld rhyfeddodau. Gobeithio y caiff plant y Dosbarth Derbyn gystal diwrnod pan fyddant hwy yn ymweld â Henblas cyn diwedd y tymor.

Dymuna plant y Dosbarth Derbyn ddiolch i Mr Dafydd Morris, Geraint a Wil o Ddeiniolen am ddod i ddangos iddynt sut i gneifio dafad. Yr un yw y diolch i Mrs Larsen o Gaernarfon am ddod i ddangos y broses o nyddu y gwlan ar gyfer ei wau a gwneud carped.

Mae'r adran dan 5 oed yn gobeithio y daw cywion bach o'r wyau sydd yn y ddeorfa yn y dosbarth ac y cânt gyfle i'w bwydo. Diolch i Mr Irfon Thomas am ei gymorth.

Roedd yna ryfeddu wrth weld y tractorau a'r peiriannau ar y fferm ac maent yn gwybod yn awr o ble y daw y llefrith i'w stepan drws. Diolch i Mr a Mrs Mackinnon am eu croeso.

Un bore daeth disgyblion Bl 1 a 2 i'r ysgol ar gefn eu beiciau. Cawsant gyfle i reidio o amgylch y buarth gyda Mr Williams a'u hathrawon yn pwysleisio'r rheolau a'r pwysigrwydd o gymryd gofal ar y ffordd.

Nid ar eu beiciau ond ar y bws yr aethant i Lanberis, gan dreulio diwrnod yn cerdded o amgylch y pentref yn ymweld â'r gwahanol atyniadau diddorol sy'n denu ymwelwyr 'am dro' i'r ardal.

Cyn diwedd y tymor byddant yn mynd ar ymweliad â Pharc Green Acres yn Ewloe.

I ddilyn eu gwaith bydd disgyblion Bl 3 a 4 yn ymweld â rhes dai Fron Haul yn yr Amgueddfa yn Llanberis. Byddant yn diweddu eu gwaith am y tymor gyda diwrnod o fwynhau ym Mharc Gullivers World.

Cafodd plant Bl. 6 gyfle i ddilyn cwrs beicio diogel gyda Mr Alan Bevan o Heddlu Gogledd Cymru. Diolch yn fawr iddo a llongyfarchiadau i bob un a lwyddodd yn y prawf.

YR URDD. Cynhaliwyd Mabolgampau Cylch Arfon yr Urdd ar gae Ysgol Syr Hugh Owen ac aeth nifer o'r aelodau i gynrychioli'r ysgol yn y gwahanol gystadlaethau. Daeth tîm ras gyfnewid y genod dan 12 oed yn drydydd a daeth Tomos Emlyn yn ail am daflu pêl dan 10 oed, a daeth Gwenno Gibbard yn gyntaf am daflu pêl dan 10 oed.

Bydd Tomos a Gwenno yn cynrychioli'r cylch yn y Mabolgampau Sir ar gaeau Treborth a dymunwn yn dda idddynt yno.

CHWARAEON. O hyn hyd diwedd y tymor bydd amryw o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn cystadlaethau mewn gwahanol chwaraeon. Dymunwn yn dda i bob un tîm fydd yn cynrychioli'r ysgol.

Dyma rifyn olaf o'r Eco yn ystod y tymor yma. Gawn ni ddymuno gwyliau hapus a diogel i bawb gan ddiolch i chwi am gefnogi gweithgareddau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Diolch o galon.

TRIP CAERDYDD. Eleni eto cawsom gyfle i fwynhau ein taith flynyddol i blant blynyddoedd 5 a 6 i Gaerdydd.

Ar y ffordd i'r brifddinas, cawsom gyfle i ymweld â phwll glo Pwll Mawr ym Mlaenafon, lle cawsom flas ar fywyd y glöwr, gan ymweld â'r twneli glo tanddaearol a chael profiad byw o waith y glöwr drwy'r canrifoedd. Cyrraedd wedyn i westy yr Hanover International a chael cyfle i ymlacio yn y pwll nofio a phryd blasus o fwyd.

Y diwrnod canlynol buom yn ymweld â'r Bae yng Nghaerdydd a chael cyfle i weld y datblygiadau diweddaraf yno. Yna yn y prynhawn, taith i'r Amgueddfa Genedlaethol, a chyfle i weld gwaith yr arlunydd Thomas Jones. Yna sesiwn ddiddorol iawn yn edrych drwy feicrosgopau cyfrifiadurol ar nifer o wahanol arteffactau o fyd hanes a byd natur.

Trefnwyd sesiwn arbennig o dda ar ein cyfer gydag Archeolegwr yr Amgueddfa, oedd yn ein tywys yn ôl i Oes y Celtiaid a gwneud y cyfnod yn fyw iawn i'r plant drwy ddrama

I gloi'r diwrnod buom yn ymweld ag Oriel y Deinosoriaid, a roddodd gyfle i'r plant werthfawrogi mor fawr a ffyrnig oedd yr anifeiliaid hyn. Mwynhaodd y plant y daith yn ofandwy ac, fel athrawon, carem ddiolch iddynt am eu hymddygiad penigamp gydol y daith.

Rwy'n siŵr y dymuna'r plant ddiolch i'r athrawon am eu gofal drostynt, ac am derfnu'r daith.

* * *

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

CRONFA COFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa Uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen a stamp gyda chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes
Tan y Clogwyn
Llanberis
Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (01286) 871 562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain, 2003.
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

'Roeddwn i yn hoffi mynd i'r Pwll Mawr, hen bwll glo ym Mlaenafon, oherwydd yr oedd hi yn hwyl gweld y lle tywyll ac oer a gweld sut yr oedd glöwyr yn gweithio yn y pwll glo erstalwm. Roedd pawb yn mwynhau ac mi ganon ni Hen Wlad fy Nhadau wrth fynd i lawr y pwll glo ac i fyny yn ôl. Cafodd pob un helmed a lamp batri a mwgwd nwy i fynd i'r pwll glo.'

Cara Mai Evans
Blwyddyn 6

* * *

'Fy amser gorau yng Nghaerdydd oedd yn yr Amgueddfa Genedlaethol oherwydd roeddym ni yn cael gweld yr arfau a'r cleddyfau sgleiniog a gwerthfawr. Hefyd fe gawsom ni wneud drama am arweinydd y Celtiaid. Rhiannon gafodd y rhan i fod yn arweinydd ac yn anffodus y fi gafodd y rhan fel mochyn gwyllt! Yn yr Amgueddfa mi roedd Mr Williams y prifathro yn brysur fel gwenynen yn tynnu lluniau pethau hanesyddol, ac roedd Mr Wyn yn gwrando'n astud am ansoddeiriau gwych i ddisgrifio defnyddiau Celtaidd.'

Gethin Lewis a
Philip Green, Bl.6.

MERCHED Y WAWR. Ar nos Fawrth, 10 Mehefin, aeth aelodau cangen Llanrug ar eu taith ddirgel flynyddol. Roedd yn daith hyfryd ar noson braf ac, ymhen hir a hwyr, roeddent wedi cyrraedd Castell Deudraeth. Mwynhaodd pawb bryd o fwyd bendigedig mewn awyrgylch ysblennydd a chafodd rhai y pleser o gerdded o amgylch yr ardd.

Yn ystod y noson cytunodd Heulwen i fod yn Is-ysgrifennydd y gangen am y flwyddyn nesaf. Cyhoeddwyd y digwyddiadau canlynol: Bore Coffi gan yr Is-bwyllgor Anabl yn Festri Capel Ebeneser am 10 y bore ar 20 Mehefin; Arddangosfa Crefftau a Choginio yn Neuadd Tregarth am 7.30 yr hwyr ar 4 Gorffennaf.

Derbyniwyd cerdyn gan Gangen Bethel yn diolch am y cyfle i ymuno â ni ar 13 Mai. Diolchodd Menna, y Llywydd, i Meirwen a Gwenda am drefnu'r noson a dymunodd yn dda i bawb dros weddill yr haf. Bydd aelodau'r gangen yn ail-ymgynnull eto ym mis Medi.

DERBYN GWOBR. Cymeriad hoffus yw Dudley'r Ddraig sy'n ymweld ag Ysgolion Gwynedd er mwyn ennyn diddordeb y plant a'u denu at brydau cinio yr ysgol. Ychydig fisoedd yn ôl roedd Dudley yn dathlu cyrraedd ei bumed pen-blwydd ac fe lansiwyd cystadleuaeth i blant ysgolion Gwynedd i dynnu llun y Ddraig hoffus yn mwynheu ei pharti. Yn ystod y mis yma daeth canlyniad y gystadleuaeth a'r buddugol oedd Sian Williams, disgybl ym mlwyddyn Un yr ysgol.

Yn ystod amser cinio dydd Iau, 12 Mehefin daeth Dudley a swyddogion o Gyngor Gwynedd i'r ysgol i gyflwyno beic a helmed i Sian yn wobr am ei gwaith.

Sian Williams o Ysgol Gynradd Llanrug yn derbyn beic yn wobr am ei gwaith yn tynnu llun o barti pen-blwydd Dudley'r Ddraig.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

NOSON O HWYL
Nos Wener
11 Gorffennaf
ar iard yr ysgol Gynradd
Ras Prams
Mabolgampau
Hwyl
Croeso i bawb

Gosodwr Teils
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805

Atgofion am Waunfawr

Arwydd o fod yn mynd yn hŷn neu beidio, mae'n braf ar brydiau cael myfyrio a chofio am gymeriadau hoffus a digwyddiadau hapus y gorffennol. Dyna a geisiaf ei wneud yn y pwt o erthygl yma o Atgofion am y Waunfawr.

Daw hanesyn i'm cof am gwpwl priod a rentai dyddyn bychan ar ochr Allt Coed Mawr. Gwisgai ef 'leggings' fel yr oedd yn arferiad gan rai amaethwyr cefnog y cyfnod, gan roi yr argraff ei fod ef yn amaethwr cefnog. Daeth gwerthwr bwyd anifeiliaid heibio i'r tyddyn a'i berswadio i brynu pob mathau o bethau – ac nid oedd yn rhaid talu ar y pryd. Ond, yn ystod yr wythnosau canlynol, derbyniodd nifer o lythyrau oddi wrth y cwmni yn gofyn am yr arian. Galwodd i weld fy nhad i ofyn am gyngor gan ddweud, fwy nac unwaith, mai'r stwff gorau a gafodd gan y gwerthwr oedd naw math o olew. Ond cyn derbyn unrhyw gyngor meddai'r hen ŵr yn sydyn, 'Mi wn i be wnâ i, fe yrraf y cwbwl lot yn ôl iddynt,' a stwffiodd y llythyrau i boced ei gôt. Ni wn beth a ddaeth o'r peth ond y diwethaf a glywais o'r hanes oedd iddo gael coblyn o ffrae gyda'i wraig ac iddo geisio lloches yn y cwt ieir o bob man.

'Tyrd allan rŵan fel dyn,' meddai hi. 'Rydw i yma fel dynes.'

Gwan fu ei iechyd erioed ac nid wyf yn credu iddo fyw rhyw lawer ar ôl hynny.

Roedd llawer o'r bobl hyn fwy neu lai yn uniaith Gymraeg yn y pedwar ar pum degau, ond yn raddol daeth trigolion uniaith Seisnig i fyw i'r pentref. Cofiaf yn dda i fab gwraig weddw, a oedd yn hynod o foesol ac uchel ei pharch, ddod â'i gariad, a oedd yn uniaith Saesneg, adref i gyfarfod â'i fam. 'Helo, how are you?' meddai'r fam. Mae'n debyg i'r cariad ateb rhyw ffordd, ond dyna ddiwedd yr ymgon, oherwydd prinder Saesneg y fam a phrinder Cymraeg y cariad.

A sôn am iaith, synnai fy nain, a oedd yn dori rhonc, yn aml at fy chwaer a minnau yn darllen ac yn ysgrifennu cymaint yn y Gymraeg.

'Eith y rhain ddim pellach na Bangor," meddai droeon. Yn anffodus bu farw cyn inni adael yr ysgol. Beth ddywedai pe gwyddai i fy chwaer dreulio blynyddoedd yn Singapore a Hong Kong ac i minnau dreulio dros hanner fy oes yn alltud. Yn rhyfedd, Cymraeg oedd ei chrefydd eglwysig, ond yn Saesneg yr ysgrifennai bopeth. Effaith y 'Welsh Not' a oedd mewn grym yn ei dyddiau ysgol mae'n debyg oedd y rheswm.

Gyda dyfodiad y mewnfudwyr gwelwyd yr enwau Cymraeg oedd ar y tai yn newid. Daeth Albancs i 'Braeside' ar ochr Allt Coed Mawr, daeth 'Whitegates' ond da dweud mai 'Llidiart Wen' yw'r enw heddiw. Ond, i fod yn deg, roedd teulu o Gymry Cymraeg yn byw yn 'Castle View' er engraifft.

Tua hanner y ffordd rhwng y Waen a Betws Garmon roedd rhes o dai, Rhes Gwyrfai, a adeiladwyd flynyddoedd ynghynt i gartrefu chwarelwyr a oedd yn byw ymhell. Ar ôl i r chwarelwyr hyn ymadael aeth y tai i dipyn o gyflwr a symudodd rhyw gymeriadau lliwgar i fyw ynddynt. Roedd llawer o feddwi ac ymladd a bu iddynt eu gwahardd o dafarndai Caernarfon, ond ni fu iddynt fod yn hir cyn dechrau mynychu'r Cwellyn Arms yn Rhyd Ddu a dal y bws diwethaf o Feddgelert gartref. Nid yn unig safai'r bws o flaen y dafarn, âi y gyrrwr i fewn hefyd. Rwy'n gwybod hyn oherwydd fy mod yn drafeiliwr cyson ar y bws fy hunan. Yn y man deuent allan a byddai llond lle o ganu ar y ffordd gartref. Ni welais i unrhyw helbul yn eu mysg.

A chymaint o sôn am etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol y dyddiau yma daw i'm cof gymeriad hoffus a oedd yn sosialydd rhonc. Roedd ei gariad at y Blaid Lafur cyn gymaint â'i atgasedd at y Blaid Genedlaethol a'r ymgyrch Senedd i Gymru.

Cynhelid pob cyfarfod gwleidyddol yn yr ysgol a phan ddeuai ymgeisydd y Blaid ar ei dro, roedd yr hen chwarelwr yn barod amdano gydag un cwestiwn yn unig, a'r un cwestiwn bob tro:

'Ia, ond sut mae'n nhw yn mynd i'w chael hi?' y senedd mae'n debyg. 'Sut mae'n nhw yn mynd i'w chael hi?'

Nid wyf yn credu i unrhyw ymgeisydd ateb ei gwestiwn oherwydd gofynnai'r un cwestiwn drosodd a throsodd, a chân neb arall gyfle i ofyn unrhyw gwestiwn arall ychwaith. Roedd yn gapelwr selog a'i fab oedd organydd medrus yr ysgol Sul. Fodd bynnag methodd ei fab a bod yn bresennol un Sul a gofynwyd i'w ffrind chwarae'r organ yn ei le. Yn fachgen llawn myraeth a hwyl dechreuodd, unai trwy gamddealltwriaeth neu ddireidi, chwarae'r emyn anghywir ac aeth ymlaen am rai munudau cyn i rywun weiddi o'r llawr, 'Dim honna ydi'r emyn.' Dechreuodd eilwaith a chyn pen dim collodd yr organydd a'r gynulleidfa eu ffordd yn llwyr. Roedd pawb ar draws ei gilydd ond cariodd ymlaen i chwarae gyda'r nodau diwethaf yn swnio fel awyren enfawr yn ehedeg yn isel. Credaf i bawb weld ochor ddigrif y digwyddiad.

Roedd festri'r Capel yn fan cyfarfod i ni, yr ifanc. Roeddem yn cael chwarae cardiau, gêm o ddrafftiau a ping pong yno. Cafodd tri neu bedwar ohonom, a minnau yn eu plith, y syniad o gychwyn clwb bocsio yno. Fodd bynnag death y fenter i sylw'r blaenoriaid a buan iawn y rhoddwyd ddiwedd i'r fenter. Maen debyg mae nhw oedd yn iawn.

Fel pob pentref, daeth newidiadau mawr i'r Waun, a bydd rhywrai rhyw ddydd yn y dyfodol yn hel atgofion am y cymeriadau ar digwyddiadau sydd yno yn bod yn awr.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £78.60 ym Mhenisarwaun gan Elisabeth Jones ac Ann Patterson. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Martin a Delyth Gayther ar enedigaeth mab bach, sef Cai William, brawd i Sioned Alys, Cynefin. Croeso mawr i ti Cai William, Taid a Nain, Coed-y-Parc a Weirglodd Goch.

EGLWYS SANTES HELEN.

PERERINDOD. Dydd Sadwrn, 31 Mai aeth rhai o aelodau'r Eglwys i ymuno ag aelodau plwyfi Llanddeiniolen a Llanfair-is-gaer ar bererindod i Aberdaron. Cafwyd hanes Eglwys Sant Hywyn ac Ynys Enlli gan Ficer y Plwyf. Mwynhawyd y diwrnod yn fawr iawn.

Dydd Sul, 15 Mehefin aeth rhai o'r aelodau ar bererindod o'r Felinheli i Gaernarfon.

Dechreuwyd gyda Gwasanaeth byr yn Eglwys y Santes Fair, Y Felinheli gyda phregeth gan Esgob Lango, Uganda. Daeth nifer dda ynghyd i gerdded ar hyd y lôn las i Gaernarfon. I orffen y bererindod cynhaliwyd Gwasanaeth byr yn Eglwys y Santes Fair yng Nghaernarfon.

Mwynhawyd y pnawn gan bawb.

DYDD GWEDDI A RHODD. Dydd Sul, 20 Gorffennaf am 10.30 o'r gloch gwasanaethir y Cymun Bendigaid gan y Parch Ann Smitham. Am 4 o'r gloch bydd Gosber gyda'r pregethwr gwâdd, Y Parch Ron Rees, Plwyf Llanllyfni. Estynnir croeso cynnes i bawb.

YSGOL SUL, SANTES HELEN.

Dydd Sul, 1 Mehefin, fe gynhaliwyd yr Ŵyl eleni yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Fe ddosbarthwyd tystysgrifau i holl aelodau ifanc yr Eglwys yn y cystadlaethau Celf a Chrefft. Fe ddaeth Ysgol Sul Santes Helen yn gyfartal enillwyr Cwpan Coffa Lowri Pritchard.

Fe fydd yr Ysgol Sul yn cau am wyliau'r haf dydd Sul, 13 Gorffennaf ac yn ailddechrau yn ystod mis Medi. Diolchir i'r aelodau am eu ffyddlondeb a chroesewir aelodau newydd.

SUL Y BEIBLAU. Dydd Sul, 29 Mehefin bydd aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan mewn gwasanaeth yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen am 2 o'r gloch.

CONFFYRMASIWN. Os oes unrhyw un yn awyddus i gael eu conffyrmio cysylltwch â'r Ficer, y Parch Ann Smitham.

CARNIFAL. Bwriedir cynnal gweithgareddau a Charnifal yn ystod mis Medi eleni. Cynhelir Pwyllgor yn Neuadd yr Eglwys **nos Fercher, 16 Gorffennaf am 7.30 yr hwyr.**

Gwneir apêl am bresenoldeb trigolion y pentref, am syniadau a chymorth i hyrwyddo gwaith y Pwyllgor ac i hybu llwyddiant a dyfodol wythnos y Carnifal.

YR YSGOL GYMUNED.

I Gaernarfon yr aeth Bl.5 a 6 ar eu hymweliad addysgol a hynny ar ddiwrnod gwlyb iawn. Dechreuodd y daith yn y Llyfrgell gyda Nia yn ein diddanu ac yn tynnu dŵr o ddannedd trwy sôn am wahanol lyfrau, ond yn gadael y 'whodunit' allan. Wedyn aethom ymlaen i chwilio am olion gwely yr afon Cadnant o dan y dref, a thrafod sut y mae nifer o'r strydoedd wedi cael eu henwau. Wedi picio i mewn i'r castell aethom draw i'r Amgueddfa Awyr yn Ninas Dinlle i gloi y diwrnod.

Fe fydd Bl. 3 a 4 yn mynd o dan y ddaear yn Chwarel Blaenau Ffestiniog ar eu trip nhw, tra y bydd y Babanod yn mynd am dro i'r Sŵ.

Ar ddydd Mawrth, 17 Mehefin daeth y Parch Ann Smitham i ymweld â'r ysgol ac i arwain y gwasanaeth. Edrychwn ymlaen am weld y Parchedig yn dod i edrych amdanom eto yn y dyfodol agos.

Bydd tîm rownderi yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth ym Methel ac maent yn edrych ymlaen am y profiad yn fawr iawn. Eisoes trefnwyd diwrnod Mabolgampau'r ysgol a Ffair Haf gan y Cyfeillion cyn diwedd y tymor.

Ar ddiwedd y tymor presennol fe fydd Robat, Chris, Gruff ac Andrew yn ein gadael am yr ysgol fawr. Pob lwc ym Mrynrefail, hogia.

CYMDEITHAS ACTION AID. Bob blwyddyn mae plant Ysgol Sul Unedig Deiniolen ac Ysgol Sul Unedig Bosra, Penisarwaun yn dod ynghyd i gynnal gweithgaredd noddedig i godi arian i Gymdeithas Action Aid, tuag at helpu cymunedau tlawd yn Kenya. Anfonnir y swm o £180 bob mis Hydref.

Yn ystod y gwanwyn eleni daeth y Gymdeithas a stori drist iawn i'n sylw am ferch fach o'r enw Marie Claire o wlad Rwanda yn Affrica. Bum mlynedd yn ôl, pan oedd hi'n 7 oed, cafodd y profiad erchyll o weld ei rhieni a'i dau frawd yn cael eu lladd. Ers hynny, hi sydd wedi gofalu am ei dwy chwaer iau. Gan fod gennym arian wrth gefn penderfynwyd anfon £100 i Gymdeithas Action Aid i gynnal y tair chwaer fach amddifad.

TRIP YR YSGOLION SUL. Bydd y Trip yn mynd i Southport ar Sadwrn, 12 Gorffennaf. Bydd y bws yn cychwyn o groesffordd King am 8.00 o'r gloch a'r pris fydd: Oedolion: £10 a Phlant (nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul): £5. Mae rhywfaint o le o hyd ar y bws. Cysylltwch â Mrs Elisabeth Jones, (872421) neu Mrs Ann Paterson (872405).

YSGOL SUL BOSRA. Mae'n adeg prysur i'r aelodau a'r athrawon gyda Chymanfa'r Methodistiaid ddydd Sul, 22 Mehefin yng nghapel Ebeneser, Caernarfon ac yna Sul y Beiblau yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen ar 29 Mehefin. Trefnir bws i Ddeiniolen gan gychwyn o Ddinorwig ac yna i Benisarwaun. Gwneir casgliad tuag at y Gymdeithas Feiblau.

I gloi'r tymor erfynnir am gefnogaeth y rhieni i sicrhau fod y plant yn ymuno yn Sbri'r Ysgolion Sul, Henaduriaeth Arfon yn Ysgol Brynrefail, bnawn Sul, 13 Gorffennaf o 1.30 hyd 4.30pm. Bydd cyfle i'r plant ymuno mewn gemau, dawnsio, canu, gwrando ar storïau a chelf a chrefft. Buasem yn hynod falch o unrhyw gymorth i gludo'r plant i Lanrug. Byddwn yn cychwyn am 1.15 o giât yr Ysgol Gymuned.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd 1. Elwyn Williams, Bryn Rhydd Mawr; 2. Glenys Williams, Trem Cynfi; 3. Wil Jones, 24 Bryntirion. Buasem yn hynod falch o gael aelodau newydd i'r Clwb Cant gan ei bod yn ffordd dda o gasglu arian tuag at y gost o gynnal y Neuadd Gymuned. Y mae defnydd helaeth yn cael ei wneud ohoni felly beth am ymuno am 50c y mis neu £6 y flwyddyn, neu drwy archeb banc. Gellir cysylltu â'r Trysorydd, Dafydd Williams, (871754) neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

Bwriedir cynnal Ocsiwn Addewidion ym mis Tachwedd. Os dymuna unrhyw un gyfrannu mewn unrhyw fodd buasem yn hynod ddiolchgar.

TRIP Y PENSIYNWYR. Bu 30 o'r pentrefwyr am drip ar y trên bach o Gaernarfon i'r Waunfawr; yna am ginio i Feddgelert. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw a dymunir diolch o galon i'r trefnwyr am roi o'u hamser a sicrhau diwrnod difyr i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Lois Dafydd, Pen Dinas Mawr ar ennill gradd M.Pharm ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd. Braf iawn cael clywed am lwyddiannau ysgubol ein disgyblion.

Pob hwyl i Nia Lewis, hithau wedi graddio y llynedd ym myd Nyrsio ac yn derbyn ei gradd eleni. Bydd mwy o ganlyniadau yn y rhifyn nesaf: canlyniadau TGAU, Lefel Uwch a'r Colegau. Mwynhewch eich gwyliau wedi'r gwaith caled.

HER Y TRI CHOPA. Fel rhan o ymgyrch S4C i godi arian at apêl Tŷ Hafan/Tŷ Gobaith, bu Eurgain Haf yn herio tri chopa gyda chriw o S4C. Am 4 o'r gloch fore Sadwrn, 14 Mehefin yr her gyntaf oedd yr Wyddfa. Roedd y tywydd yn braf a'r olygfa yn fendigedig. Roedd pawb i lawr yn ôl yn Llanberis erbyn 7–7.30 ac ymlaen wedyn i Ddolgellau a herio Cadair Idris. Tipyn o gamp – anos na'r Wyddfa. Roedd y coesau'n brifo ac yn boenus iawn erbyn dod i lawr oddi yno. I orffen yr herio mawr dringwyd Pen y Fan a phawb wedi blino'n lân. Camp fawr a chaletach na Marathon Llundain, meddai Eurgain, ond yn werth yr ymdrech tuag at elusen mor werthfawr â Hosbis i Blant Cymru.

Dymuna Eurgain ddiolch i bawb o'r fro sydd wedi ei noddi mor hael.

GWELLHAD. Anfonwn ein cofion gorau at bawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn y pentref. Bryswich wella i gyd.

DALIER SYLW. Bydd rhifyn nesaf yr Eco yn dod allan ddechrau mis Medi. Gan na fydd y gohebydd pentref adref drwy fis Awst, anfonwch eich newyddion i Myfanwy Parry, Tawelfa, Glasgoed (870846). Diolch.

DRAENOG

Y Tylluanod yn eu tro...

Docs unman yng Nghymru gyfan, yn ôl R. Williams Parry, mor enwog â Llwyncoed, Cwm-y-glo fel man i glywed hwtian oer y Tylluanod. Mae gan rhain eu hiaith eu hunain, medda gwybodusion byd natur.

Ond 'sgwn i pa iaith glywyd o'r fangre honno pan fagiodd Michael y tractor yn erbyn wal y sied? Yn sicr i chi ni chlywyd 'Tw Whit Tw Hw'!

Silver STAR

GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Ty'n Llan Nant Peris

Cinio dydd Sul a Byrbrydau

Bwydydd Cymreig

Jim ac Anne Cumberton **(01286) 870 284**

Croeso cynnes bob amser

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

ECO I'R DEILLION. Ychydig fisoedd yn ôl gwnaed apêl am wirfoddolwyr i ddarllen yr Eco ar gyfer y deillion. Cafwyd ymateb da ac erbyn hyn mae tua 12 o bersonau ar gael. Un tîm sy'n cyfarfod yn Llwyn Eithin, Bethel – Jenkin Griffiths sydd yng ngofal y peiriant, a'r rhai sy'n darllen y tro yma yw Elizabeth Evans, Bethel; Megan Williams Llanrug a Jean Jones, Deiniolen. Mae'r tâp yn cael ei anfon i Fangor, ei ddyblygu yn Swyddfa Cymdeithas y Deillion, Gogledd Cymru ac yna ei anfon allan unwaith y mis, am ddim, i tua 30 o bobl sydd wedi eu cofrestru yn ddall, neu yn rhannol ddall.

EISTEDDFOD. Mae'r paratoadau ar gyfer yr Eisteddfod, sydd i'w chynnal ar 8 Tachwedd, yn mynd yn eu blaen ac erbyn hyn mae'r testunau wedi eu dewis. Yn anorfod mae dyddiad y Noson Dawnsio wedi newid, a hynny i 4 Tachwedd. Bydd un gystadleuaeth newydd eleni yn yr Adran Gerdd, sef Cân Gyfoes, a bwriedir cynnal y gystadleuaeth yma ar Noson y Dawnsio. Os oes unrhyw un yn dymuno cyflwyno tarian tuag at yr Eisteddfod, rhowch wybod i Nora Parry, (670588) erbyn 1 Medi.

Mae'r Pwyllgor yn trefnu Noson Goffi ar nos Wener, 5 Medi a bydd cyfle i gael y rhestr testunau a rhoi enwau ar gyfer yr amrywiol bartïon. Bydd tocynnau ar werth am 50c yn ystod mis Awst. Ceir mwy o fanylion yn agosach i'r amser.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £406 ym Methel gan aelodau o Ferched y Wawr, sef Nora Parry, Sheila Roberts, Rhian Hughes, Nan Rowlands, Liz Watkins, Eirlys Sharpe, Edwina Morris, Rita Williams, Bet Owen, Anita Owen, Anne Lewis, Sharon Owen ac hefyd Maldwyn Hughes. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

TYMOR GWYCH I'R TÎM PÊL-DROED DAN 9 OED. Mae tîm dan 9 oed Bethel A wedi cael tymor ardderchog. Nid ydynt wedi colli yr un gêm yng Nghynghrair Gwyrfai, gan lwyddo i gael un gêm gyfartal ac ennill y lleill i gyd.

Dydd Sul, 4 Mai, bu'r tîm yn llwyddiannus yn Nhwrnament Dyffryn Nantlle gan guro pob gêm yn y twrnament ac ennill 3–1 yn y ffeinal yn erbyn Cae Glyn. Tipyn o record i griw mor ifanc.

Wythnos ynghynt, yn Nhwrnament Gwyrfai, bu'n rhaid iddynt fodloni ar yr ail safle gan iddynt golli yn y ffeinal o 4–1 yn erbyn Cae Glyn.

Ar bnawn poeth, 15 Mehefin, bu'r tîm yn ymdrechu'n galed unwaith eto yn Nhwrnament Segontiwm Rovers yng Nghaernarfon. Daeth llwyddiant i'w rhan ar ôl trechu Nantlle Vale 2–0 yn y ffeinal.

Mae 10 o fechgyn yn y tîm: Daniel Bell, Aaron Gwyn, Gruffydd John, Geraint Bryn, Mathew Edwards, Nathan Price, Osian Meirion, Adam Hughes, James Hatton a Carwyn Eddy.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd ac i'w rheolwr, Alun Meirion. Daliwch ati fechgyn. Pob lwc dan 11 oed y tymor nesaf.

Tîm dan 9 Bethel.

MERCHED Y WAWR. Daeth gweithgareddau'r flwyddyn i ben gyda thaith ddirgel i Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor. Cawsom groeso cynnes gan Pat West, yr Archifydd, a braf oedd cael ei chwmni o gwmpas yr Oriel yn olrhain llawer o hanesion tu cefn i'r hen gelfi oedd yno. Ymlaen wedyn dros bont Britannia i Ynys Môn, a chael pryd blasus yng Ngwesty'r Fictoria, Porthaethwy. Wrth i'r llywydd, Beti Owen, groesawu pawb llongyfarchwyd Huw, mab Alys Jones ar ennill Ysgoloriaeth yn dilyn ei lwyddiant yn Eisteddfod Môn, ac hefyd Rhys, mab Rhian Hughes a Ffion, merch Anita Owen, ar eu llwyddiannau hwythau yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar.

Diolchwyd i bawb a fu o gwmpas y pentref yn casglu dros Sefydliad Prydeinig y Galon; cyfanswm y casgliad eleni ym Methel a Llanddeiniolen oedd £490. Hysbyswyd pawb am ddau weithgaredd gan Bwyllgorau Rhanbarth, sef Bore Coffi gan Bwyllgor yr Anabl ar fore Gwener, 20 Mehefin a Noson Arddangosfa Crefftau nos Wener, 4 Gorffennaf.

Diolchodd Beti i'r Swyddogion a'r Pwyllgor am bob cymorth trwy'r flwyddyn a dymunwyd yn dda i Anita Owen a'i phwyllgor hithau y flwyddyn nesaf. Enillydd y raffl, rhodd gan y Cynghorydd Huw Hughes, oedd Nora Parry. Bydd gweithgareddau'r Gangen yn ailgychwyn ar nos Fercher, 10 Medi am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd.

CLWB BRO BETHEL.

Cyfarfod Mai. Cafodd y clwb drip diddorol drwy garedigrwydd y ddiweddar Mrs Gracie Williams, Bro Rhos. Gadawodd Mrs Williams rodd anrhydeddus i'r Clwb a'i dymuniad oedd i'r arian gael ei ddefnyddio er mwynhad yr aelodau. Roedd Mrs Williams yn aelod o'r Clwb o'i ddechreuad ac yn un o'r ffyddloniaid.

Cafwyd diwrnod difyr gan dreulio ychydig amser yn Betws-y-coed cyn teithio dros Fynydd Hiraethog tua'r arfordir. Cafwyd cip ar dre'r Rhyl ond, gan nad oedd yr un o'r aelodau yn awyddus i dalu ymweliad â'r Marine Lake, ymlaen â ni i hen dref hynafol Conwy, lle cafwyd pryd o fwyd ardderchog.

Barn pob un o'r aelodau oedd i ni gael diwrnod ardderchog, ac fe gofiwyd yn ddiolchgar am haelioni y ddiweddar Mrs Gracie Williams.

Cynhaliwyd Cyfarfod Mehefin yng Nghapel y Cysegr a'n gŵr gwâdd oedd y Parchedig G. Parry. Ei sgwrs oedd am yr hen gapeli yn y pentref. Diolchwyd iddo gan y Parch Gwynfor Williams a Mr Selwyn Griffith.

UWCH ADRAN YR URDD. Rydym wedi cael blwyddyn brysur eleni yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y pentref, yn y Rhanbarth ac yn Genedlaethol – chwarae pŵl a dartiau yn y Felinheli; sglefrio yng Nglannau Dyfrdwy; gigio yn yr Octagon a bod yn wirion iawn yn yr Hwylfan. Cawsom hefyd nosweithiau difyr yn y Neuadd Goffa yn gwneud gwahanol chwaraeon a chael noson hwyliog yng nghwmni Mr Richard Llwyd Jones.

Bu'r dawnswyr disgo, Angylion Kelly, yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfod yr Urdd, gan ennill yn y Cylch ac yna mynd ymlaen i gynrychioli Rhanbarth Eryri yn y Genedlaethol. Er codi'n fuan i wneud y gwalltiau a'r colur (5 o'r gloch y bore!) er mwyn cystadlu am 7.45am, yn anffodus ni ddaeth llwyfan i'r criw eleni – Ynys Môn amdani!

Ond daeth y freuddwyd yn wir i Kelly Cavanagh gan iddi gyrraedd y llwyfan mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn, a chael, fel ei chwaer, y drydedd wobr yn y Dawnsio Disgo Unigol o 12 i 15 oed. Da iawn ti, Kelly.

Kelly Cavanagh oedd yn drydydd am Ddawnsio Disgo dan 15.

Dwy arall fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod oedd Hanna Gwyn ac Elan Rhys, y ddwy yn cael yr ail wobr am Addurno Ffabrig – Hanna yn yr oedran Blwyddyn 7/8 ac Elan yn yr oedran Blwyddyn 9. Llongyfarchiadau i'r ddwy.

(Parhad ar dudalen 18 a 19)

Hanna Gwyn ac Elan Rhys a gafodd ail wobr yn y gystadleuaeth Addurno Ffabrig.

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

NEWYDDION YSGOL BETHEL

(Parhad o dudalen 17)

Tîm pêl-rwyd Uwch Adran yr Urdd yn gorffwyso yn y cysgod oddi wrth yr haul tanbaid.

Ar 14 Mehefin, buom yn cymryd rhan yn Niwrnod Chwaraeon Uwch Adrannau Cymru yn Aberystwyth. Roedd yn ddiwrnod chwilboeth, rhy boeth o lawer i chwarae pêl-rwyd tu allan ar y tarmac! Ond dyna oedd raid ei wneud. Roedd y gemau yn galed gan fod gan y timau eraill chwaraewyr Blwyddyn 9 a ninnau ond yn genod Blwyddyn 7 i gyd! Colli fu ein hanes yn erbyn Llanbed, Abergele a Ffridd y Llyn, ond yn y gêm olaf cawsom rhyw ail wynt ar ôl cael MacDonalds a churo Rhuthun 3–1.

Cafodd yr hogia well hwyl arni yn y pêl-droed. Ennill dwy a cholli dwy a methu, o wahaniaeth goliau yn unig, i fynd i'r gemau cynderfynnol. Aethant hefyd i'r ail rownd yn y cystadlaethau Pŵl.

Rydym yn diolchgar iawn i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am gyfrannu at y costau teithio.

ARDAN YR URDD. Yn ystod wythnos olaf mis Mai, cychwynnodd fy nhad, fy mam, Manon a fi am Ŵyl Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam, ger Port Talbot. Roedd Manon a fi yn cymryd rhan mewn cystadlaethau yn yr Eisteddfod – Manon yn aelod o Fand Jazz Aelwyd Bethel a finnau yn yr un Band a hefyd yn y Parti Deulais, ac yn cystadlu ar fy mhen fy hun (yn chwarae fy nghorn) yn y Gystadleuaeth Offerynnol dan 12.

Aelodau'r Band Jazz oedd Aled Rhys, Cai, Robin, Siôn Elwyn, Manon Elwyn, Gethin Wyn, Marad, Osian, Mari Wyn, Rebecca, Gwilym Rhys a Dyfan.

Yn y Parti Deulais roedd Angharad Price, Angharad Morris, Cai, Catrin, Daniella, Dyfan, Elena, Ella, Enfys, Gethin, Greta, Gruffydd John, Gwylim, Llio, Robin a Siôn Elwyn (roedd Siân Catrin o flwyddyn 5 hefyd yn eilydd ar gyfer y parti).

Roedd pawb yn falch iawn ein bod wedi llwyddo i ennill yn eisteddfodau'r Cylch a'r Sir, a llawer ohonom wedi cael cyfle i fynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'n rhaid diolch i athrawon yr ysgol am ein hyfforddi ac i Anti Siân (Harris) am wneud y trefniadau cyffredinol – ac i bob un ohonyn nhw am ddod hefo ni i Barc Margam.

Cawsom amser bendigedig ar y maes (a chafodd sawl un hwyl fawr yn y ffair a oedd wrth ymyl). Yn yr Orendy, dafliad carreg oddi wrth y maes a Phlasty enwog Margam, y cynhaliwyd rhagbrofion y Parti a'r Band. Roedd hwn yn adeilad hynod, gyda'i ffenestri bwa mawr, ac yno yr oedden nhw'n arfer tyfu orennau flynyddoedd yn ôl.

Cefais amser braf yn mynd o gwmpas y gwahanol stondinau oedd ar y maes ac yn gwario fy mhres. Roedd ambell babell yn ddigon croesawus, fel pabell Merched y Wawr lle ces i banad a chacen gri (wel, tair cacan gri, a deud y gwir, a phanad ddigon cry i dyfu blew ar frest!).

Gwaetha'r modd, ni lwyddodd y Band na'r Parti i fynd ymhellach na'r rhagbrawf a dyna fu fy hanes innau hefo'r corn (er i'r beirniad ddweud fod y Band, y Parti a finnau yn agos iawn at gael ymddangos ar y llwyfan). Sut bynnag am hynny, mae'r flwyddyn nesaf eto i ddod! Ond tybed a gaiff dad le i barcio mor agos at y maes y tro nesa!

Siôn Elwyn
Blwyddyn 6 Ysgol Bethe

Blwyddyn 6 Ysgol Bethel a dderbyniodd dystysgrif am lwyddo i reidio beic yn ddiogel.

Robart Griffiths, o Flwyddyn 1, a'i athrawes, Mrs Sian Jones, ddaeth yn fuddugol drwy Wynedd am lunio poster yn hyrwyddo golchi dwylo i gydfynd ag Wythnos Diogelwch Bwyd.

LLONGYFARCHIADAU i Danielle Cavanagh ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo dan 12 yn Eisteddfod Genedlethol yr Urdd. Da iawn hefyd i'r plant i gyd fu'n cystadlu yn Nhawe, Nedd ac Afan. Cafodd pawb ganmoliaeth uchel gyda'r Grŵp Offerynnol a'r Parti Deulais yn dod o fewn trwch blewyn i gael llwyfan. Diolch yn fawr iawn i Mrs Nia Guillemin a Mrs Mari Williams am hyfforddi'r plant ac i Mr Dylan Parri am gyfeilio.

Derbyniodd Darren Hibbart, Blwyddyn 6, blac ar ran yr ysgol gan Mrs Judith Roberts, Swyddog Hybu Iechyd. Cwblhaodd yr ysgol Gam Un dan Gynllun Ysgolion Hybu Iechyd Gwynedd.

Grŵp Offerynnol Adran yr Urdd gyda'u hyfforddwraig, Mrs Nia Guillemin.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Mabolgampau'r Ysgol

Enillydd y mwyaf o farciau yn adran y babanod oedd Jade Mullins a Iolo Hughes, Blwyddyn 2.

Enillydd y mwyaf o farciau yn yr Adran Iau oedd Aled Rhys Hughes ac Ella Christie, Blwyddyn 6.



Cadnant oedd y tŷ â mwyaf o farciau yn y mabolgampau. Gwell lwc, Iolen a Garth, y flwyddyn nesaf.

Ella Christine a Cai Jones, capteiniaid yr Adran Iau a Guto Griffith a Ffion Chubb, capteiniaid Adran y Babanod o dŷ Cadnant yn derbyn eu tarian.

GARETH GRIFFITH
A'I GWMNI
Cyfreithwyr
6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG
Tel: **67 68 69** Ffacs: 67 77 05
E-bost: ggriffith.ggco@virgin.net

• *Prynu a Gwerthu Tŷ* • *Ewyllysiau a Phrofiant*
• *Hawliadau Damweiniau* • *Prydles ac Eiddo*
• *Cyfreithiad Troseddol a Sifil* • *Deddf Drwyddedu*
• *Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn*
• *Perchennog a Thenant*
• *Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol*

Mr a Mrs Mops, Capel Bethel

Aelodau Capel Bethel fu'n glanhau y capel ar ôl gwaith atgyweirio diweddar.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £296.85 yn Waunfawr gan Helena Edwards, Verona Owen, Linda Griffith, Ann Clarke, Olwen Owen a Marian Jones. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

CYMORTH CRISTNOGOL. Dymuna Pat Parry, y trefnydd lleol, ddiolch i'r casglwyr i gyd am roi eu hamser i fynd o amgylch o dŷ i dŷ ac i'r pentrefwyr am eu cyfraniadau. Y swm a gasglwyd eleni oedd £315.11.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Pnawn Iau, 5 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun. Croesawodd Mrs Catherine Jones, y llywydd, Mrs Pat Parry i ddangos i'r aelodau sut i wneud cardiau newydd allan o hen gardiau ar gyfer gwahanol amgylchiadau, fel pen-blwydd, brysiwch wella, ayyb. Roedd yn ffordd ddiddorol iawn o ailgylchu hen gardiau a chafodd pob aelod wneud cerdyn. Diolchodd y llywydd i Pat. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Mrs Wenna Edwards oedd Mrs Menna McDaid.

Ar 3 Gorffennaf bydd yr aelodau yn mynd ar drip i Erddi Bodnant a chael te yng Nghonwy. Os oes unrhyw un, nad ydynt yn aelodau, yn dymuno dod y pris fydd Bws: £3. Te: £4 a £5.20 am fynd i'r Gerddi. Gadewch i'r ysgrifenyddes, Mrs Anne V. Williams (650452) neu'r Llywydd (650242) wybod erbyn 29 Mehefin.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Ffion Haf, 4 Stad Tŷ Hen ar lwyddo gydag anrhydedd yng ngradd 2 Chwarae'r Piano.

BEDYDD. Yn ystod y gwasanaeth fore Sul, 15 Mehefin, yng Nghapel Croesywaun a'r Parch Gwenda Richards yn gweinyddu, bedyddiwyd Siôn Ifan, mab bychan Iwan a Sara Davies, Bryn Melyn.

GENEDIGAETH. Anfonwn ein llongyfarchiadau i Mrs Alice Johnstone, Tŷ Gwyn ar ddod yn nain i Elli Mai, merch fach ei mab Niel a'i wraig, Ffion, a chwaer fach i Gwilym.

ADREF O'R YSBYTY. Rydym yn falch o groesawu Mr Rol Williams, Ardwyn adref o'r ysbyty gan ddymuno iddo ddal i wella ar ôl llawdriniaeth i'w lygaid.

Hefyd Mr Gwilym Madog Jones, Stad Bro Waun, dymunwn wellhad iddo yntau ar ôl dderbyn llawdriniaeth calon.

RHIFYN NESAF O'R ECO. Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg ddiwedd mis Awst. Cofiwch ddod a'ch newyddion. Dymunwn wyliau hapus a diogel i bawb.

URDD. Llongyfarchiadau i'r ddau grŵp a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd drwy gyfansoddi cerddoriaeth ar dâp i hysbysebu 'Peryglon'. Daeth un grŵp yn gyntaf a'r llall yn drydydd. Da iawn blant. Blas, gobeithio, i gystadlu mwy y flwyddyn nesaf!

MABOLGAMPAU'R URDD, CYLCH ARFON. Ar gae Ysgol Syr Hugh, Caernarfon cynhaliwyd Mabolgampau yr Urdd. Aeth nifer o'r aelodau i gystadlu a bydd Gwenan Williams yn mynd i gynrychioli Cylch Arfon ym Mabolgampau y Sir ar gaeau Treborth, Bangor. Dymunwn yn dda iddi yno.

YSGOL GYNRADD. Bu'n dymor llawn prysurdeb. Yn syth wedi gwyliau'r Pasg cawsom Arolwg! Hoffwn ddiolch i'r plant am ymddwyn mor dda ac i'r athrawon am eu gwaith caled.

Eisteddodd Blwyddyn 6 eu profion TASAU, ac roedd Diwrnod o Hwyl wedi ei drefnu ar eu cyfer yng Nglynllifon y diwrnod canlynol. Yn anffodus roedd y tywydd mor ofnadwy fel y bu'n rhaid i ni ddod adref ar ôl cinio.

Daeth Mrs Paula Owen, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, atom i roi sgwrs i bob dosbarth i hybu diogelwch wrth gerdded a chroesi'r ffyrdd. Bu pymtheg o blant yn cynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio i Ysgolion Mawr yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm, roedd deuddeg ysgol yn cystadlu a daeth ein hysgol ni yn bumed.

Cawsom daith gerdded noddedig i'r Babanod a thaith feics noddedig i'r Adran Iau. Nid yw'r holl arian wedi dod i law eto ond carem ddiolch i bawb a gyfrannodd. Bydd yr arian yn mynd tuag at brynu Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i Adran y Babanod.

Carem ddiolch yn ogystal i Karen a Carmen am drefnu Diwrnod Hwyl yn Nhafarn y Snowdonia Park dydd Sul, 8 Mehefin. Casglwyd £600 tuag at Gronfa Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Diolch i bawb a gyfrannodd at y diwrnod.

Cynhelir ein Ffair Haf flynyddol eleni ar nos Iau, 10 Gorffennaf am 6.30. Croeso cynnes i bawb. Dewch yn llu.

Aelodau'r Urdd Waunfawr a ddaeth yn gyntaf ac yn drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y gystadleuaeth Cyfansoddi Cerddoriaeth dan 12 oed.

Enillwyr Gŵyl yr Hendre

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

GWASANAETHAU ARBENIGOL PLANT GWYNEDD SPECIALIST CHILDREN'S SERVICES

Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru North West Wales NHS Trust

A oes gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda phlant?

A ydych yn gallu cynnig ychydig o oriau bob wythnos – ar ôl ysgol, penwythnosau a gwyliau ysgol?

GWEITHIWR CEFNOGOL (Oriau Hyblyg)

£5.68 yr awr - dyddiau'r wythnos
£8.52 yr awr - gwaith dydd Sadwrn
£11.36 yr awr - gwaith dydd Sul

Mae Gwasanaethau Cefnogol yn chwilio am bobl fywiog i gefnogi plant anabl a phlant sy'n wael a'u teuluoedd ar draws Gwynedd.

Mae'r gefnogaeth yn galluogi'r plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac i gynnig gofal ysbaid i'r teuluoedd.

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu a Nia Gruffudd, Swyddog Gwasanaethau Cefnogol. Rhif Ffôn: (01286684005).

Ffurflenni cais a manylion pellach gan y Gyfarwyddwraig Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SG. Rhif Ffôn (01286) 679507.

(This is an advert for the post of support worker for disabled children and children who are ill for which the ability to communicate in both Welsh and English is essential Welsh learners will be considered)

NI GIDAWN O BLAID POBL ANABL

Cefnogwch ein hysbysebwyr

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar y 3ydd o Fehefin yn Neuadd ysgol Penisa'rwaun. Offrymwyd gweddi gan y Cynghorydd Richard Llwyd Jones.

Dewis swyddogion am y flwyddyn

Llywyddwyd y rhan yma o'r cyfarfod gan y cadeirydd presennol.

Penodwyd y Cynghorydd Sara Wood yn gadeirydd a'r Cynghorydd Gwilym Williams yn is-gadeirydd.

Wrth groesawu Sara i'r gadair, diolchodd Richard i'r aelodau am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn ac i'r Cynghorydd Dafydd Williams ac aelodau'r Grŵp cymunedol. Cyfeiriodd at y penderfyniad i roi byrddau gwyn rhyngweithiol i ysgolion y gymuned fel ddigwyddiad hanesyddol. Diolchodd y Clerc hefyd i'r aelodau am eu cefnogaeth ers ei benodi. Dywedodd y Cynghorydd Len Jones 'tra ein bod mewn cyflwr diochgarwch!' diolch hefyd i Richard am ei gadeiryddiaeth dros y flwyddyn.

Cofnodion Mai

Eglurodd y Clerc bod Len Jones wedi sylwi nad oedd Rhydfadog ar y rhestr o gysgodfannau i'w hatgyweirio a'i fod wedi cysylltu a Mri G. L. Jones ynglŷn â hyn. Nid oedd prisiau wedi eu derbyn erbyn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Elwyn Jones at y gysgodfan a fu yn Rhiwlas – Tynnwyd hi oddi yno oherwydd fandaliaeth. Penderfynwyd gofyn i Wynedd am amserlen gosod cysgodfannau newydd yn y dyfodol.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Ychwanegiad gan y Cyng Aled Green: Beth yw'r gobaith o gael llwybrau troi i'r dde o'r A4244 i gyfeiriad Winllan a Blaencae gan bod safon y ffordd wedi ei newid i ddosbarth cyntaf?

Oes bwriad gwella'r ffordd heibio i *Kent* a Phont Rhug? Gofyn i Wynedd am adroddiad ar y ddau leoliad.

Materion o'r Cofnodion:

Gwyro llwybrau cyhoeddus – Darllenwyd rhan o gymal 8 o adroddiad y Cyngor ynglŷn â llwybr Cae Goronwy – 'mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi i ystyried pob cais i wyro llwybrau cyhoeddus o safbwynt hwylustod i gerddwyr yn hytrach nag i dir fediannwr.' Dyfynwyd hyn i Gyngor Gwynedd fel ymateb i'r cais i wyro llwybr Tyddyn y Felin, Penisa'rwaun. Trafodwyd hyn a phenderfynwyd gofyn i Wynedd beth mae'r ddeddf yn ddweud ac ail edrych ar y polisi yn ôl ateb y Cyngor Sir.

Côst Parcio yng Ngilfach Ddu

Atebwyd cwestiwn y Cynghorydd Gwilym Williams nad oedd ateb o Gyngor Gwynedd – danfon llythyr eto.

Swyddog Datblygu Gwynedd

Dywedodd y Cynghorydd Huw P. Hughes bod Eurwyn Gruffydd yn gadael y swydd. Penderfynwyd danfon llythyr i Wynedd yn gofyn am iddynt lenwi'r bwlch ar fyrder. Diolch i Eurwyn am ei arweiniad a'i gynghorion, yn arbennig i'r Grŵp Cymunedol.

Cyflwynwyd ateb Gwynedd ynglŷn â Waliau Gallt y Foel, Ffordd Afon Goch a'r wal dros y ffordd i Eglwys Llandinorwig. Hefyd Pont Rug a *Kent*.

Trosedd ac anrhefn

Darllenwyd ateb Miss Eira Hughes yn awgrymu ei bod hi, yr Heddwas Diogelwch Cymunedol, PC Gwyn Parri, a'r Arolygydd Simon Davies yn mynychu cyfarfod y Cyngor. Penderfynwyd iddynt ddod i gyfarfod Gorffennaf erbyn 7.15, y cyfarfod i ddechrau am 6.45 i baratoi cwestiynau.

Gohebiaethau eraill:

Cyflwynwyd datganiad Cymdeithas yr Iaith a'u bwriad i fynd â'r datganiad o gwmpas Cymru yn ystod wythnosau olaf Awst a'i gyflwyno i'r Cynulliad mewn rali yng Nghaerdydd ar y 15ed o Dachwedd. Awgryma'r Gymdeithas y gallai'r Cyngor:

- alw am gynyddu'r gyllideb a ddarperir ar gyfer y 'Cynllun Cymorth Prynu';
- alw am sicrhau adnoddau digonol ar gyfer tai i'w rhentu;
- sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn seilio eu polisiau tai ar anghenion cymunedol lleol.

Penderfynwyd cylchredeg copi o'r datganiad i aelodau'r Cyngor.

C.I.L. Canolfan Byw yn Annibynnol De Gwynedd

Cais am gymorth ariannol, penderfynwyd cadw'r cais a'i drafod ynghyd â cheisiadau eraill yn yr Hydref. Gofyn am eu mantolen ariannol.

Y Bnr Hywel Williams

Cyflwynwyd ei fwriad i ymweld â Chynghorau Lleol. Penderfynwyd ei wahodd i gyfarfod yr Hyderf.

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad, Cefn Braich, Rhiwlas;

Codi Sied, Y Fachell, Llanddeiniolen;

Porth, 20, Cremlyn, Bethel;

Newid defnydd o weithdy i dŷ, Ffynnon Wen, Dinorwig.

Cais CO3A/0241/18/AM.

Adeiladu pedwar tŷ ar **hen safle Capel Tabernacl, Deiniolen.** Gan bod rhaid ateb erbyn y 29ain o Fai, danfonwyd y sylwadau canlynol ar ran y Cynghorydd Sara Wood (yn ddibynnol ar sêl bendith y cyfarfod yma):

'Nid oes gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r datblygiad yma ond teimlir yn gryf y dylai'r datblygiad gydymffurfio â'r rhan yma o'r pentref, sef pensaerniaeth Tai Deiniol a'r ddau eiddo o boptu'r safle.

Tuedd datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf yw blychau bychain, tebyg i'w gilydd. Buasai dau annedd yn lle pedwar yma yn dipyn mwy safonnol.

Y sylw arall yw y dylid cynnig y tai i deuluoedd lleol cyn eu rhoi ar y farchnad agored.

Trafodwyd safon tai'r ardal yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor pryd yr amlygwyd yr angen am well tai, i roi cyfle i deuluoedd lleol symud i fyny'r farchnad eiddo.'

Penderfynwyd danfon llythyr i Wynedd yn cadarnhau'r uchod gan ychwanegu sylw'r Cynghorydd Len Jones – buasai'r datblygiad yma yn creu anhawsterau parcio difrifol. Mae gwendidau hefyd yn y gwasanaeth carffosiaeth yn y rhan yma o'r pentref.

Llwybrau

Adroddodd y Cynghorydd Aled Green bod giât ar y llwybr o Winllan i Glan Arthur wedi ei tharo – llythyr i Wynedd.

Y Cynghorydd Phylip Jones – Mae'r ffos ger tal y Waen, Deiniolen yn dal yn ddiffygiol er bod yr adran ffyrdd yn honni eu bod wedi ei chlirio. Hefyd bod sbwriel yn dal i gael ei adael ym maes parcio Marchlyn Mawr – llythyr i Mr Emyr Seral Jones, Cyngor Gwynedd.

Adroddiadau

Y Grŵp Cymunedol

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Williams eu bod wedi cyflwyno dau gais i gronfa Gwella Gwynedd, sef:

1) Tir ger Llys y Gwynt, Penisa'rwaun, llunio gardd ar ran o'r safle. Y syniad yw creu borderi blodau o gylch ymylon y plot, (yn glir o'r tanciau tanddaearol) a gosod 2/3 o feinciau ar laswellt yn y canol.
2) Cefnogi'r cynllun i ail lunio Cae Pella, Rhiwlas.

Bwriedir trefnu cyfarfod o'r Grŵp, Swyddog Adfywio Gwynedd a Mrs Mair Owen Hughes.

Dyddiad y cyfarfod nesaf : 1af o Orffennaf am 18.45

CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR

Down â fo atoch a'i nôl wedyn

Ffôn: **871782**

STEPHEN JONES

Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Adroddiad o waith y flwyddyn gan Cyngor Gwynedd yn Ward Bethel / Rhiwlas

Dyma ni ar flwyddyn olaf yn nherm presennol y Cyngor. I ddweud y gwir pob pedair blynedd mae'r etholiadau i fod i'w cynnal, ond y tro yma fe benderfynodd Llywodraeth y Cynulliad ymestyn y term, am unwaith, i bum mlynedd i beidio gwrth-daro ag etholiadau'r Cynulliad (medda nhw). 'Sgwn i pam? Nid wyf am fynd ar y trywydd yna, ond mi lynaf gyda fy arferiad dros y pedair blynedd diwethaf, sef rhoi adroddiad ar y gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen yn fy etholaeth dros y flwyddyn a fu.

O bosib y gwelliant mwyaf i'r ardal yw adeiladu'r gylchfan newydd yng ngroeslon Tyddyn Hen. Mae wedi cymryd cryn waith a phwyso i'r cynllun yma ddod i rym a hoffwn ddiolch o galon i'r rhai a fu o gymorth mawr pan, ar adegau, roedd pethau yn edrych yn o dywyll i ariannu'r cynllun. Diolch arbennig i Adran Priffyrdd y Cyngor am gael gafael yn y cyllid angenrheidiol ac am y dyluniad ardderchog. A hefyd i'r ymgymerwr sydd, dros y misoedd diwethaf, wedi cario 'mlaen â'r gwaith heb achosi dim anhwylusdod bron i ddefnyddwyr y ffordd.

O'r ardal yn gyffredinol cawn symud i bentref Bethel. Mae gwaith ailwynebu ffyrdd Saron hyd at Tre'r Gof wedi ei gwbwlhau. Ynghlwm â'r gwaith yma roedd yn bosib i'r cyngor dacluso a chreu mannau parcio ger mynedfa stad Y Rhos. Daeth cyfraniad ariannol i wneud y gwaith yma yn bosib drwy nawdd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Yn ogystal â'r cyfraniad uchod mae'r Cyngor Cymuned i'w ganmol am ei rodd o fwrdd gwyn digidol i Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon ysgolion y plwyf sydd, wrth gwrs, yn cynnwys Bethel a Rhiwlas. Bydd hyn yn galluogi'r cymdeithasau yma i drosglwyddo'r adnoddau arbennig yma at ddefnydd cin ysgolion.

Mae cryn dipyn o waith yn mynd ymlaen hefyd i ail-adnewyddu yn hollol dai Cremlyn, Bethel a Bro Rhiwen, Rhiwlas. Er fod hyn yn creu cryn dipyn o drafferth i'r tenantiaid, drwy orfod gadael eu cartrefi am oddeutu dri neu bedwar mis tra bydd y gwaith yn cael ei gwbwlhau, bydd hyn i gyd werth chweil rwyn sicr gan bydd eu cartrefi wedi eu hadnewyddu trwyddynt, gyda ystafelloedd ymolchi newydd a gwres canolog ymysg y gwelliannau.

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd tai y cyngor ar Stad Bro Rhos yn cael eu hail-weirio.

Mae pwysau yn cael ei roi ar greu llwybrau troed a beicio newydd. I geisio symud hyn ymlaen ym Methel rwyf wedi rhoi ymlaen, fel un o gynlluniau Mân Welliannau'r Cyngor, gais i ymestyn y llwybr troed presennol, o fynedfa Tyddyn Andrew Isaf hyd at Erw Bian, a diolch i'r drefn mae'r cynllun wedi ei roi ar y rhestr o gynlluniau i'w cario allan. Cafodd y rhestr yma ei chymeradwyo gan Bwyllgor Ardal Arfon nos Fercher 11 Mehefin '03. Gan fod y tir ble mae'r gwaith yma i'w leoli ym mherchenogaeth y cyngor, yna rwyf wir yn gobeithio gweld y gwaith yn cael ei ddechrau o fewn amser synhwyrol.

Bydd y gwaith yma yn ein galluogi i ymestyn y cynllun sydd wedi ei gario allan i wella a thacluso mynedfa cae pêl-droed Clwb Icuenctid Bethel. Rhan o hyn oedd symud yr arwyddion 30m.y.a. i ochr Erw Bian o gyffordd Cysegr. Ar ôl adeiladu'r llwybr troed y cynllun yw cael gostyngiad 40 m.y.a. o ochr Gors Bach Erw Bian hyd at yr arwydd 30 ger Cysegr.

Yn ogystal bydd gwaith ail-wynebu yn cael ei gario allan ar y pafin, o'r ffordd fawr hyd at fynedfa Stad Tan y Cae, yn ogystal â phafin Stad Tan y Ffordd. Rwyf wedi gwneud cais hefyd i gael ail-wynebu ffordd Stad Rhos Lan, dim penderfyniad fan hyn eto yn anffodus.

Un o bryderon mawr yr ardal yw cyflymdra traffig. Mae dadleuon o blaid a hefyd yn erbyn gosod tawelyddion ar y ffyrdd. I'r perwyl yma, oherwydd fod teimladau cryf gan gefnogwyr a gwrthwynebwyr, rwyf yn dosbarthu holiaduron yn Saron, Bro Rhos a rhan o Fro Eglwys. Drwy hyn bydd yn bosib imi weithredu ar ddymuniadau'r mwyafrif.

Yn ystod y flwyddyn yn Rhiwlas, gyda chymorth Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd a Swyddog Datblygu Bro y cyngor, fe ddosbarthwyd holiaduron i gartrefi'r pentref. Diddorol iawn oedd dadansoddi'r ymatebion a, thrwy hyn, roedd yn bosib cael arweiniad clir ar sut a beth oedd eu dymuniadau at wella cyfleusterau'r ardal.

Y materion amlycaf oedd diogelwch yng ngyffiniau'r ysgol, tacluso a chreu mannau parcio Stryd Uchaf a Cae Pella; creu llwybyr troed a thacluso a cynnal llwybrau sy'n cysylltu rhannau o'r hen bentref. I weithredu ar hyn mae Pwyllgor Datblygu Rhiwlas wedi ei sefydlu, a maent yn frwdfrydig iawn at y gwaith. Yn barod mae gwaith i'w gynnal a chreu maes parcio ar gyfer yr ysgol, mae'r mater yma nawr yn nwylo Adran Eiddo'r cyngor. Hefyd mae taflenni wedi eu dosbarthu i hysbysu'r pentrefwyr y bydd gwaith i osod tawelyddion traffig yn dechrau yn yr wythnosau nesaf.

Bydd gwaith ychwanegol yn cael ei gynnal i ailwynebu'r gyffordd a ffordd Rhiwlas a'r A4244.

Drachefn rwyn ei chael yn anodd i symud pethau ymlaen yn Scion a Llanddeiniolen, heblaw wrth gwrs cael gweld y gwaith hir ddisgwyliedig o ail wneud y gwteri yn y pant islaw Eglwys Llan. Mae'r gwaith yma wedi gwneud i ffwrdd â'r llifogydd blynyddol a oedd yn gorchuddio'r ffordd ar adegau o law trwm.

Os oes gan unrhyw un awgrym am waith sydd ei angen yn yr etholaeth neu os oes rhywbeth y gallaf ei wneud yna rhowch alwad ar (01248) 670 666 neu cysylltwch ar e-bost huw.hughes@lineone.net

Huw P. Hughes
Cynghorydd Plaid Cymru,
Bethel/Rhiwlas.

2 Llys Mostyn
Trelawnyd
RHYL

Annwyl Ddarllenwyr,

Gofid calon i mi oedd darllen yn Eco'r Wyddfa am farwolaeth Amranwen Lynch, plentyn hynaf y Parch a Mrs Evan Lynch, Disgwylfa, Carrog, Corwen.

Roedd fy nghartref yn Penybryn, Waunfawr a'r gweinidog pan oeddwn i'n blentyn oedd y Parch D. J. Lewis, tad Alun T. Lewis a'r Athro Hywel D. Lewis. Yng Nghapel Bethel, Waunfawr (neu'r Capel Mawr fel yr adwaenid ef) y magwyd fi. Rhaid oedd mynychu'r Seiat a'r Cyfarfod Gweddi yn ogystal â'r oedfa fore Sul a'r ysgol Sul. Pan oeddwn i'n fach iawn arhoswn adref o'r Capel gyda Mam, a'm tad, John Evans, yn mynd i'r capel yn y nos.

Roedd organ fawr yn y capel a phleser digymysg i mi oedd eistedd yn y sêt ar ymyl y galeri yn gwylio pob symudiad o eiddo Mrs J. Eunice Davies neu Gwilym Edwards ar yr organ fawr. Yn wir, yr unig ffordd y gwnawn i fihafio yn y capel oedd eistedd yn y fan honno.

Pan oeddwn i'n tynnu at naw oed aeth Anti Mary, chwaer i mam oedd yn arfer byw yn Tŷ Hen, Waunfawr, yn *Housekeeper* i John Morris Jones, oedd yn byw yn Waen Hywel ac, ar y cychwyn, methwn yn lân â deall pam fod yna John Morris Jones yn arwain y gân yn y sêt fawr yng Nghapel bach y Bont ac un arall yn byw yn Waen Hywel.

Daeth Beryl (Mrs Evan Lynch) a mi yn ffrindiau mawr ac ymhen amser, ar ôl i'r ddwy ohonom ddod i fedru chwarae tipyn o emynau, byddem yn cael ymarfer ar organ y capel. Mynd i Bryn Gwenallt at Mr W. O. Pritchard ar nos Iau neu nos Wener i gael gwybod beth fyddai'r emynau at y Sul. Wedyn byddai Mrs Enid Whiteside Thomas neu Miss Annie Roberts Talybont yn mynd â ni at organ y capel i chwarae un emyn bob un a hefyd Gweddi'r Arglwydd.

Roedd Beryl a mi yn ffrindiau mynwesol ac arferwn fynd i Gwyddfor i chwarae hefo hi. Roedd ei mam, y pryd hynny, yn *District Nurse* yn ardal Penisarwaun, ac roedd llechen yn y gegin fach yn Gwyddfor i Mrs Williams ysgrifennu ymhle i gael hyd iddi os deuai rhywun i'w nôl ar frys.

Roedd Beryl wedi cael set dda o bethau i chwarae 'Ysgol Bach' gan frawd Mrs Williams o Awstralia neu rywle. Fan yna y byddem wrth ein bodd yn chwarae hefo hon. Beryl fyddai'r athrawes a minnau yn ddisgybl. Doedd gen i ddim eisiau mynd yn athrawes mewn ysgol na mynd i goleg. Eisiau mynd i nyrsio oeddwn i, cael piano a dysgu plant i ganu yn Waun Hywel. I raddau helaeth daeth y pethau hyn yn wir.

Yn gywir
Elizabeth Edwards

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CROESAIR GORFFENNAF



Mae saith o'r atebion sydd heb gliwiau iddynt yn berthnasol i un o ryfeddodau byd natur. Mae enw'r rhyfeddod hwnnw yn cuddio yn 3 ar draws.

Ar Draws:

6 Os am ramant cyffrous, edrychwch ar glawr y llygad! (6)
11 Gwirionyn mewn cornel flêr, diddiwedd (5)
12 Llid y croen ar aderyn? (4)
13 Un o bâr sy'n bwysig i'r corff yng nghanol yr wythnos? (6)
14 Urddau'r brifysgol (6)
15 Mae deg cant mewn miliwn! (3)
16 ------ o'r un meddwl (6)
19 ------ ac yn rêl ynfytyn! (3)
20 Llaw gaeëdig (4)
21 Ffrwyth Efrog Newydd? (4)
24 Metel a wneir drwy gymysgu haearn a charbon (3)
26 Gŵr caeth yn bwyta eog ffres o'r afon! (5)
29 Hudo fel y gwna'r tylwyth teg (5)
30 Coed bytholwyrdd â dail pigog (5)
33 Bwrdd ysgrifennu (4)
35 Twlsyn y dyn barfog? (3)
37 Heb ofid (6)
40 Darn o fetel i ddal rhywbeth heb fod yn fawr? (3)
41 ------ a darn o dir amgaeëdig wrth y tŷ (6)
44 Un sy'n gwerthu ei achos neu ei wlad (6)
45 Swyn trychinebus y tlws (4)
48 Ffôl ac annoeth (5)
49 Ffrwythau'r gollen (4)

I Lawr:

1 Anifail bach yn llawn o egni direidus (5)
2 Rhywbeth â sylfaen o aur iddo (7)
4 Yn foel a heb ddillad (4)
5 Darn bach o dir a amgylchynir â dŵr (6)
8 Y lefran flêr heb orffen bod yn ddi-drefn (5)
9 Y poethaf o'r elfennau sylfaenol (3)
10 O blaid cael gormod i'w fwyta? (6)
17 Y creadur yn cynnwys ei drwyn (5)
18 Labrinth (6)
23 Mae angen tipyn o blwc i ennill ffortiwn! (3)
24 Tir pori (3)
25 Diadell yn pori ger Gyrn Goch (3)
26 Tocyn (5)
27 Ail berson lluosog rhagenw personol blaen! (3)
28 Y stad o anghymeradwyo i fyny ac i lawr! (3)
34 Gafael yn dynn (6)
35 Paratoadau'r wledd? (7)
36 Nifer o fodrwyau cysylltiedig (6)
38 Mab i'r un tad neu fam (5)
39 Rhan mwyaf gwerthfawr yr elw i gigydd (5)
42 Meinciau (5)
43 Yr ochr chwith (4)
44 Cael enw da yng nghanol Ebrill (3)

Ymddiheuriadau unwaith eto – rhywsut fe ddiflannodd y cliw i 17 i lawr y mis diwethaf; yn ffodus 'doedd hynny ddim yn ffeithio ar ddatrys gweddill y croesair. CENNA oedd y gair oedd gen i dan sylw, ac mae'n syndod faint ohonoch ddyfalodd yn gywir gan roi y gair hwnnw i mewn. Dim cosb wrth gwrs i'r rhai a adawodd y blychau yn wag, a gobeithio na fu i'r camgymeriad rwystro eraill rhag cystadlu y mis hwn.

Derbyniais atebion erbyn y dyddiad cau gan Vera Griffiths, Nan Owen, Moreen Lennon ac Olwen Owen, Llanberis; Gareth Oliver, Tregarth; Ioan Thomas, Caerdydd; Pat Owen, Caerfyrddin; Alice Griffith a Megan Morris, Dinorwig; Enid Jones, Talysarn; Nansi Davies, Rhuthun; Alvona Jones, Prestatyn; Margaret W. Roberts a Mair Evans, Caernarfon; H. O. Hughes, Pwllheli; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Eluned Jones a D. B. Williams, Trefor; M. P. Jones a Jenny Wiliams, Clynnog; Ceridwen Williams ac Eirian Roberts, Llanrug; Ceinwen Williams, Bethel; N. Hughes, Cwmyglo; E. E. Williams, Rhoshirwaun, Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; G. Gill, Bangor; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen ac un dienw!

Enillydd y mis ydi Mr. I. Thomas, 30 Alexandra Road, Caerdydd CF5 1NU

Ar ôl cwblhau croesair mis Mehefin, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn
20 Gorffennaf.

Atebion Croesair Mehefin

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI · DRYSAU · CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

CHWARAEON

Mabolgampau Brynrefail

Y mae'r Mabolgampau yn cael y sylw haeddiannol o dan dudalen newyddion yr ysgol. Rwyf am gynnwys un llun yn y golofn chwaraeon i gynrychioli y chwysu a'r tuchan dros y diwrnod cystadleuol ar ddiwrnod braf. Y ras dan sylw yw'r 1500m i flynyddoedd 8 a 9. David Cashman (Gwyrfai) sy'n arwain Dewi Foulkes (Gwyrfai) yn y wib olaf am y llinell, ac yn y drefn yna y gorffennodd y ras. Mae si fod ambell dîm pêl-droed proffesiynol yn cadw golwg ar ddatblygiad David o Ddeiniolen. Yn amlwg mae o'n ddigon heini.

Mac Rhodri Gruffudd Bl 3 Ysgol Llanrug wedi derbyn tlws Clwb Rygbi Caernarfon - Chwaraewr y Clwb Dan 8oed Tymor 2003.
Llongyfarchiadau hefyd i athrawes Bl3 Rhodri yn Ysgol Gynradd Llanrug sef Miss Catrin Jones am ennill gwobr chwaraewr y flwyddyn Tim Hoci Caernarfon 2003.
Llongyfarchiadau i'r ddau

Margaret Williams

Ras Elidir

Ar bnawn Sadwrn 14eg o Fehefin cynhaliwyd y drydedd ras yng nghyfres Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Cymru. Daeth saith deg o redwyr gorau'r wlad i Nantperis i herio llethrau serth Elidir Fawr, gan ddringo dros 2800 o droedfeddi a rhedeg dros 5 milltir ar dirwedd garw, a hynny ar brynhawn llethol o boeth.

Bechgyn lleol fu'n fuddugol, gyda Dylan Jones o Ddeiniolen yn ennill, a Robin Halliday o Lanrug yn dynn wrth ei sodlau. Yn yr adran i ferched, roedd Jayne Lloyd o Gaeathro yn ail.

Mae tair ras yn weddill yn y gyfres – Nant y Moch, Waun Fach a Bannau Brycheiniog – i gyd yng nghanolbarth a de Cymru. Siawns na ddaw rhai o'r prif wobrau yn ôl i fro'r 'Eco' erbyn diwedd Awst.

Apêl i Llanbêr!

Trafod yr Urdd a'r Steddfod roedden ni yn y stafell athrawon rhyw amser cinio pan godwyd cwestiwn diddorol, 'Ydy Cwpan Pantyfedwen yn dal i gael ei chynnal?'

Os yw fy nghof i yn iawn, dyma un o'r tlysau mwyaf o ran maint ar gyfer unrhyw gystadleuaeth pêl-droed. Ni allwn roi ateb pendant i'r cwestiwn, ond roeddwn yn eithaf sicr fod y 'cawr o gwpan' wedi ei ennill gan dîm aelwyd Llanberis tua canol y 70au, os cofiaf yn iawn.

Beth ddaeth o aelodau'r tîm hwnnw? A aethant ymlaen i chwarae i dimau lleol? Oes gan aelod o'r tîm tybed atgofion o 'rediad' y tîm at gipio'r cwpan?

Gan na fydd rhifyn o'r Eco tan fis Medi bellach, a oes un aelod o'r tîm hwnnw yn fodlon rhoi rhyw bwt at ei gilydd a 'hel atgofion' fel petai, gan fwrw golwg yn ôl dros 25 mlynedd a mwy!

Noson Wobrwyo Bethel

Leslie Morgan yn cyflwyno tlws 'Dewis y Cefnogwyr' i Jonathan Newell.

Daeth ail dymor y clwb i ben gyda chynulliad 'tawel' yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon. Cymysg oedd y teimladau yn sicr. Yn gyntaf, y boddhad pendant yn y camau breision y mae'r clwb wedi ei wneud yn y ddwy flynedd o'u bodolaeth. Fel y nodwyd ar y noson, mae llwyddiant ar y cae yn deillio o drefniadaeth drylwyr a pharod oddi ar y cae. Llongyfarchiadau i'r Cadeirydd, Trefor Foulkes, a'i griw gweithgar am roddi Bethel ar fap pêl-droed y gogledd.

Gallasai y tymor fod yn un arbennig, gan i'r tîm gyrraedd rownd derfynol tair cwpan – y Junior Cup am yr ail flwyddyn yn olynol, Cwpan Ffilmiau'r Nant a Chwpan Undeb y TGWU. Y cwpan olaf yn unig ddaeth adref eleni ond cafwyd gemau cofiadwy yn y ddwy 'ffeinal' arall.

Mae tipyn o surni yn aros ynglŷn â sawl apêl a ddaeth i'r fei yn ystod y tymor, ac ni all rhywun ond gobeithio fod y gwahanol bwyllgorau sy'n cynnal cynghreiriau neu gystadlaethau yn gadarn a chyson yn eu penderfyniadau, a bod perthynas iach rhwng y pwyllgorau â'r clybiau y rhoddwyd y swydd i'r pwyllgorau eu cynrychioli.

Cyflwynwyd sawl tlws yn ystod y noson.

Prif Sgoriwr: Gavin Edwards;
Dewis y Chwaraewyr: Darren Ellis ac Owain Machno;
Chwaraewr Ieuanc y Flwyddyn: Derfel Williams;
Dewis y Rheolwr: Darren Hughes;
Aelod Clwb y Flwyddyn: Dewi Williams;
Dewis y Cefnogwyr: Jonathan Newell.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb o'r ardal, yn noddwyr a chefnogwyr, am eu cymorth yn ystod y tymor. A gaf i ddiolch hefyd i Meic Roberts, sy'n gyfrifol am safle wê'r clwb (www.cpdbethelfc.co.uk) am y llu lluniau safonol yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau iddynt am ennill tlws arbennig iawn, sef y 'Safle Wê Newydd Orau ym Mhêl-droed Cymru'. Mae'r feirniadaeth yn eu canmol i'r cymylau ac yn nodi y gallai rhai o brif glybiau Cymru elwa o astudio'r safle fywiog hon.

A ninnau yn mynd i'r wasg, cyhoeddwyd fod Gavin Edwards wedi ennill tlysau Chwaraewr y Flwyddyn a Phrif Sgoriwr Cynghrair Arfon am dymor 2003.

Tlws yr Eco 2003

Erbyn i chi ddarllen y pwt yma bydd cystadleuaeth arall wedi ei chynnal ac, unwaith eto, mae nifer y timau ar gynnydd.

Yn anffodus, roedd rhaid i erthyglau'r rhifyn hwn fod yn y wasg cyn cynnal y 'brwydro'. Er tegwch i'r plant, yn enwedig y rhai llwyddiannus yn eu 'noson fawr', rwyf wedi gohirio'r adroddiadau tan rhifyn Medi. Mae'n debyg na fydd fawr wedi digwydd yn yr ysgolion ar ddechrau'r tymor, felly efallai y caf fenthyg tudalennau canol y papur i roi sylw teilwng, mewn gair a llun, a fydd hefyd yn gofnod hapus i ysgolion ac unigolion mewn blynyddoedd i ddod.

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846